

# PARTNERIAETHAU IECHYD CYMRU GYDAG AFFRICA

## GWNEUD Y GORAU O'R POTENSIAL ER LLES Y DDWY OCHR

Paratowyd i Lywodraeth Cymru gan yr awdur arweiniol, Dr Kit Chalmers, ar ran yr Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Trofannol a Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica, mis Mawrth 2021.



<b>1. CRYNODEB GWEITHREDOL</b> .....	<b>4</b>
<b>2. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR</b> .....	<b>5</b>
2.1 AMCANION .....	6
2.2 CWMPAS .....	7
2.3 METHODOLEG .....	7
<b>3. GWEITHGAREDD IECHYD RHYNGWLADOL YNG NGHYMURU</b> .....	<b>9</b>
3.1 AGWEDDAU AT WAITH IECHYD RHYNGWLADOL.....	9
3.2 CYRFF GWEITHREDOL .....	10
3.3 CYRFF CYMREIG SY’N DERBYN CYMORTH DATBLYGU SWYDDOGOL.....	11
3.4 FFYNONELLAU CYLLID PRESENNOL .....	11
3.5 CADW CRONFEYDD AR GYFER PARTNERIAETHAU IECHYD Y GIG .....	12
3.6 DIASPORA’N YMWNEUD Â GWEITHGAREDD IECHYD RHYNGWLADOL .....	13
3.7 MEWNWELEDIAD: NODWEDDION CYRFF SY’N YMWNEUD Â IECHYD RHYNGWLADOL.....	14
<b>4. STRWYTHURAU SY’N CEFNOGI GWAITH IECHYD RHYNGWLADOL CYMRU</b> .....	<b>16</b>
4.1 POLISI’AU A DEDDFWRIAETH CEFNOGOL .....	16
4.2 CYRFF SY’N CEFNOGI .....	16
4.3 CYRFF ERAILL SYDD Â PHOTENSIAL I GYFRANNU.....	18
4.4 MODELAU ERAILL YN Y DEYRNAS UNEDIG .....	18
4.5 MEWNWELEDIAD: NODWEDDION CYRFF A PHOLISI’AU SY’N CEFNOGI .....	21
4.6 CRYNODEB.....	25
<b>5. CYLLIDO</b> .....	<b>26</b>
5.1 CYMORTH DATBLYGU SWYDDOGOL .....	26
5.2 CYLLID AC EITHRIO ODA AR GYFER GWAITH IECHYD RHYNGWLADOL CYMRU .....	32
5.3 MEWNWELEDIAD: NODWEDDION CRONFEYDD A PHROSES AU YMGEISIO.....	32
<b>6. CASGLIADAU</b> .....	<b>35</b>
6.1 BYDD GWAITH IECHYD RHYNGWLADOL YN ELWA O WELL CYDLYNU.....	35
6.2 MAE ANGEN I GYRFF IECHYD RHYNGWLADOL DDATBLYGU ER MWYN CAEL GAFAEL AR WELL CYLLIDO.....	35
6.3 MAE GAN GYMRU OPSYNAU AR GYFER CYNYYDDU CYLLID ODA, OND DYLAI EDRYCH MEWN MANNAU ERAILL HEFYD. ....	35
6.4 MAE ANGEN I’R GIG FUDDSODDI ER MWYN ELWA O WAITH IECHYD RHYNGWLADOL.....	36
6.5 MAE ANGEN MYND ATI’N RHAGWEITHIOL I DDENU GRWP IAU DIASPORA I MEWN I WAITH IECHYD RHYNGWLADOL. ....	36
6.6 BYDDAI CYMRU’N ELWA O STRATEGAETH SY’N YN YMWNEUD YN BENODOL AG IECHYD RHYNGWLADOL.....	36
<b>7. ARGYMHELLION</b> .....	<b>37</b>
7.1 ARGYMHELLION I LYWODRAETH CYMRU .....	37
7.2 ARGYMHELLION I GIG CYMRU.....	40
7.3 ARGYMHELLION I GYRFF ERAILL.....	41
<b>8. SYLWADAU CLOI</b> .....	<b>42</b>

ATODIAD 1: AELODAU'R GRŴP LLYWIO A RHANDEILIAID.....	43
ATODIAD 2: CYRFF IECHYD RHYNGWLADOL GWEITHREDOL SYDD Â'U PENCADLYS YNG NGHYMRU.....	44

## Geirfa Termau

Term	Ystyr
AMR	Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (antimicrobial resistance)
CHB	Cyrff Hyd Braich
DALIE	Du, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnig
DfID	Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol
DHSC	Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Deyrnas Unedig
DPP	Datblygu Proffesiynol Parhaus
MCSau	Mudiadau Cymdeithas Sifil
FCDO	Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu
GCRF	Y Gronfa Ymchwil i Heriau Byd-eang
GIIC	Gwledydd Incwm Isel a Chanolig
GNI	Incwm Gwladol Crynswth
HCA	Hub Cymru Africa
HEE	Health Education England
IHCC	Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynus Iechyd
MCDd	Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth
NDCau	Nodau Datblygu Cynaliadwy (y Cenhedloedd Unedig)
NIHR	Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd
ODA	Cymorth Datblygu Swyddogol
PHE	Public Health England
RhCICA	Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica
SCCF	Cronfa Her Elusennau Bach
SSAP	Panel Cyngori Is-Sahara
THET	Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Trofannol
WASH	Dŵr, Glanweithdra a Hylendid
<b>Acronymau a byrfoddau penodol i GIG Cymru</b>	
AaGIC	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
BIPAB	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
BIPBA	Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
BIPBC	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
BIPCAF	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
BIPCTM	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Felindre	Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (Canser)
GGGC	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
Hywel Dda	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
ICC	Iechyd Cyhoeddus Cymru
PCGC	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Powys	Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
YGAC	Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae gan Gymru hanes hir o ymwneud mewn modd cadarnhaol gyda gwledydd incwm isel a chanolig ac rydym mewn cyfnod nawr sy'n cynnig cyfle sylweddol. Wrth i ni ailadeiladu yn dilyn pandemig sydd wedi amlygu anghyfiawnder a rhyng-gysylltiadau ar lefel fyd-eang, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r adroddiad hwn, sy'n ystyried gweithgaredd rhwng Cymru ac Affrica Is-Sahara. Mae'n canolbwyntio ar gyfleoedd cyllido Cymorth Datblygu Swyddogol (ODA) gyda golwg ar gael y manteision gorau posib o ymgysylltu byd-eang i GIG Cymru. Bydd adolygiad arall sydd i ddilyn yn ystyried gweithgaredd iechyd rhyngwladol mewn sectorau a gwledydd eraill.

Roedd ymgysylltiad rhanddeiliaid â'r gwaith hwn yn rhagorol a brwdfrydedd y rhai a fu'n rhan ohono ar bob lefel yn amlwg. Mae hinsawdd gwleidyddol ac economaidd cyfredol y Deyrnas Unedig, a fynegwyd trwy doriad o £5bn yn ymrwymiad Cymorth y DU eleni, wedi ei gwneud hi'n anodd dadansoddi cyfleoedd cyllido. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr angen am ymgysylltu byd-eang yn fwy nag erioed, a does dim amheuaeth y bydd iechyd byd-eang yn parhau'n flaenoriaeth ar gyfer gwariant ODA y DU yn y dyfodol. Ein gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn ein helpu i baratoi ar gyfer y dyfodol cadarnhaol hwnnw.

Ymhlith canfyddiadau allweddol yr adroddiad, mae:

- Mae'r rhan fwyaf o fudiadau Cymreig sy'n weithgar ym maes iechyd rhyngwladol yn fach, ac nid ydynt wedi cael swm cymesur o ODA y DU.
- Mae gan Gymru gryfderau a allai roi cyfle i ddenu cyllid ODA: ymchwil iechyd y cyhoedd, diogelu iechyd, gofal iechyd ar sail gwerthoedd, arloesedd, a dilyniannodi genomegol.
- Mae strategaeth a chydlynu o ran iechyd rhyngwladol yn benodol yn wan ar hyn o bryd. Gallai cryfhau o ran strwythur ac adnoddau fod yn fuddiol.
- Nid yw gwaith rhyngwladol wedi'i ymgorffori ym musnes craidd y GIG, yn cynnwys ar lefel cynllunio'r gweithlu, ac fe gollir manteision posib o ganlyniad.

Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru, i'r GIG ac i gymdeithas sifil mewn perthynas â:

- Strategaeth, yn ymwneud yn benodol ag iechyd rhyngwladol, wedi'i datblygu a'i chefnogi gan gysylltiadau cryf o fewn a rhwng llywodraethau, ac ymrwymiad gan y GIG.
- Cydlynu, trwy Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd wedi'i hadnewyddu a chydag adnoddau a Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica, sydd mewn safle unigryw rhwng y GIG a'r sector datblygu rhyngwladol.
- Datblygu capasiti a chynaliadwyedd cyrff iechyd rhyngwladol sy'n bodoli, trwy ddatblygu strwythurau cyllido a chyfleoedd ar gyfer cydweithio.
- Datblygu cyfleoedd ar gyfer gweithlu'r GIG trwy gryfhau gwaith ymgysylltu byd-eang Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Bydd y cyfuniad o gefnogaeth strategol ac ymarferol yn annog twf, gan arwain at gyfleoedd cyllido newydd ac, yn bwysicach o bosib, rhagor o gyfleoedd ar gyfer y GIG a'i staff. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen i staff y GIG weld bod eu gwerth yn cael ei gydnabod a'u lles yn cael ei hyrwyddo: bydd ymwneud â gwaith iechyd rhyngwladol gyda chefnogaeth dda yn gwneud cyfraniad gwerthfawr yn hyn o beth.

Wrth i ni ddod allan o bandemig y coronafeirws, rydym yn sylwi bod awydd yng Nghymru i ystyried, fel unigolion ac fel cenedl, ein lle yn y byd. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn a'i argymhellion yn cyfrannu wrth i Lywodraeth Cymru osod ei gyfeiriad wedi'r pandemig, gan ddod â budd i'r ddwy ochr - gartref yn ogystal â thramor.

## 2. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae gan Gymru hanes hir o ymwneud mewn modd cadarnhaol gyda gwledydd incwm isel a chanolig (GIICh) o safbwynt cymunedol ac iechyd. Sefydlwyd Dolen Cymru rhwng Cymru a Lesotho ym 1985<sup>1</sup> ac yn 2006, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei rhaglen flaenllaw Cymru o Blaid Affrica<sup>2</sup> (a elwir bellach yn Cymru ac Affrica), gan anelu at grynhoi adnoddau cyfyngedig yn y gwledydd ble mae'r angen mwyaf. Mae'r rhaglen wedi cefnogi cannoedd o brosiectau yn seiliedig ar waith partneriaeth rhwng grwpiau a sefydliadau yng Nghymru ac yn Affrica Is-Sahara. Ers 2015, mae'r prosiectau hyn wedi canolbwyntio ar wneud cynnydd o ran cyfraniad Cymru tuag at gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDCau) y Cenhedloedd Unedig.<sup>3</sup> Oherwydd nad yw gwariant Cymorth Datblygu Swyddogol yn faes sydd wedi'i ddatganoli, caiff rhaglen Cymru ac Affrica ei chyllido'n uniongyrchol o gyllideb Llywodraeth Cymru, yn seiliedig ar y manteision y daw cysylltiadau byd-eang i'r genedl: sgiliau newydd, ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac ymgysylltu cymunedol, i enwi dim ond ychydig.

Ar yr un pryd, roedd Cymru ar flaen y gad yn annog ymgysylltu byd-eang yn y GIG gan gydnabod y manteision i unigolion ac i'r sefydliad. Roedd Cylchlythyr Iechyd Cymru ym mis Hydref 2006 yn cyfarwyddo Prif Weithredwyr yn y GIG i ddangos ymrwymiad i gysylltiadau gyda systemau iechyd GIICh, gan gynnwys gwneud hynny trwy addasu polisiau ar ddatblygu proffesiynol a chyfnodau o absenoldeb o'r gwaith.<sup>4</sup> Cyfeiriwyd yn benodol at gyfraniad staff gofal iechyd diaspora i'r GIG, ynghyd â chanfyddiad o'r angen i roi rhywbeth yn ôl i'r gwledydd ble roeddent wedi hyfforddi. Rhoddwyd y nod hwn ar waith trwy gyfraniad i raglen Cymru ac Affrica o'r gyllideb iechyd, sy'n parhau hyd heddiw. Cryfhawyd yr ymrwymiad i waith iechyd rhyngwladol gan fframwaith "Iechyd yng Nghymru a Thu Hwnt i'w Ffiniau"<sup>5</sup> (2012) a'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol<sup>6</sup> (2013). Tynnodd rhain sylw at feysydd ar gyfer gweithredu yn y Llywodraeth, y GIG a thu hwnt. Wedi'u dylanwadu'n rhannol gan y Siarter, mae GIG yr Alban a Lloegr wedi datblygu rhaglenni iechyd byd-eang ers hynny, gan gydnabod unwaith eto y manteision i'r GIG o gael staff yn ymwneud â'r gwaith hwn.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu ar ei hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<sup>7</sup> (2015) ac i ymgysylltu rhyngwladol gyda'r Strategaeth Ryngwladol<sup>8</sup> (2020). Er gwaethaf y datblygiadau hyn, mae tystiolaeth bod momentwm wedi'i gollu ac nad yw manteision posib gwaith iechyd rhyngwladol yn cael eu cyflawni'n llawn yn y GIG. Mae ymgysylltiad o fewn sefydliadau GIG Cymru yn anghyson ac mae'r trefniadau cydlynu a sefydlwyd yn unol â fframwaith 2012 wedi colli cyllid a ffocws. Nid yw cyrff newydd o fewn ac gwmpas y GIG wedi dod yn rhan o rwydwaith gefnogol ehangach. Nid yw cysylltiadau iechyd a oedd wedi'u sefydlu wedi tyfu, mae rhai wedi dod i ben a phrin yw'r rhai sydd wedi'u sefydlu o'r newydd; nid yw'r rhai sy'n parhau yn cael y lefel o gyllid sydd ei angen i ddatblygu. Yn y cyfamser, mewn rhannau eraill o'r DU, mae ymgysylltu byd-eang yn ffynnu. Mae'r Alban wedi datblygu

<sup>1</sup> Dolen (2021). [Gair am Ddolen Cymru](#).

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru (2020). [Cymru ac Affrica](#).

<sup>3</sup> UNDP (2021). [Nodau Datblygu Cynaliadwy](#).

<sup>4</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006). [Cylchlythyr Iechyd Cymru](#).

<sup>5</sup> Llywodraeth Cymru (2012). [Iechyd yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau: Fframwaith ar gyfercysylltu'n rhyngwladol ym maes iechyd](#).

<sup>6</sup> Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (2014). [Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru](#).

<sup>7</sup> Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2021). [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(2015\)](#).

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru (2020). [Strategaeth Ryngwladol i Gymru](#).

rhaglen Dinasyddiaeth Fyd-eang<sup>9</sup> ac mae Lloegr yn paratoi i elwa ar y manteision i'w gweithlu o ran addysg, recriwtio a chadw trwy raglen ymgysylltu byd-eang Health Education England (HEE).<sup>10</sup>

Yn yr amgylchedd hwn y glaniodd y pandemig gwaethaf ers dros ganrif. Ers blynyddoedd, mae adroddiadau am iechyd rhyngwladol wedi cynnwys rhagymadroddion ynglŷn â manteision ymgysylltu byd-eang ar gyfer rheoli'r risgiau o afiechydon newydd yn ymddangos. Mae'n achos tristwch nad oes angen gwneud hynny yma: yn 2020, daeth natur fyd-eang iechyd yn llawer rhy amlwg trwy bandemig y coronafeirws. Mewn blwyddyn boenus, nad oes modd cyfrif ei heffeithiau hir-dymor eto, amlygwyd anghyfartaleddau lleol a byd-eang difrifol. Mae'r cyswllt annatod rhwng anghyfartaleddau iechyd a gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd ehangach wedi ei brofi ac mae gwerth meddwl a gweithredu'n fyd-eang wedi dod yn gwbl amlwg. Mae Cymru mewn sefyllfa dda i ymateb i hyn.

Mae comisiynu'r adroddiad hwn, sy'n canolbwyntio ar weithgareddau a chyllido cysylltiadau iechyd sydd ar waith rhwng Cymru ac Affrica, yn tystio i awydd Llywodraeth Cymru i wneud mwy i gefnogi ac annog gwaith iechyd rhyngwladol, er budd gwasanaethau iechyd, yng Nghymru ac yn ei phartneriaid mewn GIICh. Bydd adroddiad pellach, sydd i'w gwblhau ym mis Mai 2021, yn bwrw golwg ehangach ar waith iechyd rhyngwladol, o ran daearyddiaeth yn ogystal â'r sectorau sy'n gysylltiedig â'r gwaith. Mae agwedd Cymru tuag at ymgysylltu rhyngwladol yn seiliedig ar "bŵer meddal", sef cyfnewid safbwyntiau diwylliannol, a gall y gwaith hwn wneud cyfraniad cryf tuag at hynny. Wrth i ni ddod allan o'r pandemig ac addasu i'r amgylchedd ôl-Brexit, mae'n adeg ddelfrydol i adnewyddu ymgysylltiad Cymru ym maes iechyd â GIICh, ac Affrica Is-Sahara yn benodol, ac i fwrw golwg y tu hwnt i fanteision "meddal" ymgysylltu byd-eang i weld sut y gall y gweithgaredd hwn fod yn sail i Gymru sy'n ymgysylltu'n fyd-eang ac yn foesegol, ac y mae ei system iechyd yn elwa'n llawn ar y manteision.

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth yn yr adroddiad hwn, a'i argymhellion, yn helpu i alluogi Llywodraeth Cymru i elwa'n llawn ar y manteision i'r ddwy ochr a ddaw trwy ymgysylltu byd-eang ym maes iechyd, yn unol â'i bwriad eglur.

---

## 2.1 AMCANION

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio deall a gwneud argymhellion ynglŷn â sut y gall Cymru ddenu cyllid ychwanegol ar gyfer ei gwaith iechyd rhyngwladol gyda GIICh, yn arbennig yn Affrica is-Sahara, a chynyddu effaith y gwaith hwnnw. Bydd adroddiad pellach yn bwrw golwg ehangach ar weithgaredd iechyd rhyngwladol Cymru. Yr amcanion penodol yma ydy:

- Cyflwyno darlun clir o'r cyrff sy'n weithredol yn y maes hwn a'u ffynonellau cyllid, gan ganolbwyntio ar, ond heb fod yn gyfyngedig i Gymorth Datblygu Swyddogol (ODA).
- Nodi cyfleoedd i gael gafael ar gyllid ODA ar gyfer y gwaith hwn a rhwystrau rhag gallu gwneud hynny, ynghyd â dadansoddiad o dueddiadau o ran gwariant ODA y DU.
- Nodi ffyrdd y gellir ehangu capasiti cyrff i gael gafael ar y cyllid hwn a chronfeydd eraill i'r eithaf, gan gynnwys rhanddeiliaid strategol y dylai Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica (RhCICA) ymgysylltu â nhw er mwyn ehangu rhwydweithiau.
- Cyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru a chyrff eraill sy'n galluogi potensial y gwaith hwn i gael ei wireddu'n llawn, er budd GIG Cymru a'r wlad yn ehangach, yn ogystal â gwledydd partner.

---

<sup>9</sup> NHS Scotland (2021). [NHS Scotland Global Citizenship Programme](#).

<sup>10</sup> Health Education England (2021). [Global Engagement](#).

---

## 2.2 CWMPAS

Mae'r gwaith hwn wedi'i gyfyngu i gyrff sydd wedi'u lleoli yng Nghymru sy'n ymgysylltu â GIICh, yn arbennig yn Affrica is-Sahara er mwyn bod yn gydnaws â rhaglen Cymru ac Affrica. Mae hyn yn cynnwys Partneriaethau Iechyd ffurfiol<sup>11</sup>, sy'n deillio o'r GIG yn bennaf, a mudiadau cymunedol sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â gweithgareddau iechyd. Rhoddir sylw canolog i'r manteision i GIG Cymru, sydd â lle amlwg yn y gwaith, a'i weithlu. Nid yw'n cynnwys cyrff anllywodraethol (NGOs) mawr sydd â phresenoldeb yng Nghymru.

Trwy gydol yr adroddiad hwn, bydd "gweithgaredd iechyd rhyngwladol", "partneriaethau iechyd rhyngwladol" ac ati yn cyfeirio at waith sy'n cynnwys cyrff a phartneriaid Cymreig mewn GIICh, yn unol â'r cwmpas hwn.

---

## 2.3 METHODOLEG

Defnyddiwyd cyfuniad o ddulliau, yn cynnwys ymchwil desg, ymgynghori â grŵp llywio, arolygon ar-lein a chyfweliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn datblygu'r adroddiad hwn.

Roedd y grŵp llywio a lywiodd y gwaith hwn yn cynnwys cynrychiolwyr cyrff allweddol: RhCICA, yr Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Trofannol (THET) a Hub Cymru Africa (HCA) (Atodiad 1). Rhoddodd aelodau'r grŵp llywio a'r cyrff yr oeddent yn eu cynrychioli gyngor ynglŷn â chysylltiadau, rhwydweithiau a rhanddeiliaid. Darparodd THET fynediad at unigolion mewn ystod o sefydliadau yn y DU, yn ogystal ag arbenigedd ei thîm mewn meysydd megis polisi, grantiau a chyllido.

Canfuwyd grwpiau iechyd rhyngwladol gweithredol trwy'r dulliau cymysg a ddisgrifiwyd, gan wneud y gorau o'r cyfle i ganfod ystod eang o gyrff, a chaniatáu ar gyfer mewnbyn gan arbenigwyr y sector ble roedd barn yn cael ei mynegi (gweler "Cyfyngiadau" isod). Cafodd y 38 grŵp a ganfuwyd eu gwahodd yn unigol i ymateb i arolwg ar-lein er mwyn canfod eu ffynonellau cyllid presennol a'u barn ynglŷn ag ehangu'r rhain, gan esgor ar gyfradd ymateb uchel o 53%.

Ymchwiliwyd i ffynonellau ODA trwy gyfleuster olrhain datblygu Llywodraeth y DU<sup>12</sup>, gan edrych yn benodol ar brosiectau iechyd a gyllidwyd trwy'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO), Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Deyrnas Unedig (DHSC), cronfeydd ODA traws-adrannol perthnasol, ac UK Aid Direct.

Roedd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda rhanddeiliaid allweddol yn creu gofod ble gallai syniadau newydd ddod i'r golwg, ac fe'u hategwyd gan gyfathrebu mwy anffurfiol gyda chysylltiadau ehangach. Nodwyd rhanddeiliaid allweddol naill ai fel rhai a oedd yn ymwneud yn weithredol â gwaith iechyd rhyngwladol, perthnasol, fel rhai oedd â diddordeb amlwg ond nad oeddent yn weithredol ar hyn o bryd, neu fel rhai nad oeddent yn y naill categori na'r llall ond a oedd â photensial i gyfrannu.

Gwahoddwyd cyfanswm o 42 o unigolion a chynhaliwyd 30 (71%) o gyfweliadau. Roedd y rhanddeiliaid yn cynrychioli tair carfan: Llywodraeth, Cyrff Hyd Braich (CHB) a Mudiadau Cymdeithas Sifil (MCSau) (ceir rhestr lawn yn Atodiad 1). Cafodd y wybodaeth ei dadansoddi, ei chodio a'i grwpio yn ôl y pedair thema a nodwyd:

- Agweddau at waith iechyd rhyngwladol.

---

<sup>11</sup> Mae partneriaethau iechyd yn fodel ar gyfer gwella iechyd a gwasanaethau iechyd sy'n seiliedig ar y syniad o gydweithredu rhwng pobl a sefydliadau o wahanol wledydd. Mae'r partneriaethau'n rhai hir-dymor ond heb fod yn barhaol ac maent yn seiliedig ar y syniad o ddysgu gan y naill ochr a'r llall a sicrhau manteision i'r ddwy ochr.

<sup>12</sup> UK Foreign, Commonwealth and Development Office (2021). [Development Tracker](#).

- Nodweddion cyrff sy'n ymwneud â gwaith iechyd rhyngwladol.
- Nodweddion cyrff a phrosesau cefnogi.
- Nodweddion cronfeydd a phrosesau ymgeisio.

Cyflwynir manylion pellach yn yr adrannau perthnasol.

### Cyfyngiadau

O ystyried y gorgyffwrdd sydd rhwng iechyd a materion cymdeithasol/cymunedol, nid yw categorieddio grwpiau yn ôl p'un ai ydynt yn ymwneud â gwaith iechyd rhyngwladol ai peidio yn wyddor union, a bu rhaid derbyn mai mater o farn yw hynny i raddau. At ddibenion yr adroddiad hwn, cafodd grwpiau eu cynnwys os oeddent yn trafod gwaith sy'n seiliedig ar iechyd ymhlith eu gweithgareddau. Roedd hyn yn cynnwys y rhai oedd yn gweithio ar ddŵr, glanweithdra a hylendid (WASH) a iechyd rhyw, a'r rhai oedd â phrosiectau unigol a oedd yn amlwg yn gysylltiedig ag iechyd. Nid oedd yn cynnwys y rhai y mae eu sylw yn amlwg ar faterion eraill er eu bod yn ymgorffori addysg iechyd sylfaenol yn eu gwaith.

O ran cyfweiliadau rhanddeiliaid, roedd y gyfradd ymateb gan CHB yn gymharol isel: 62% o gymharu ag 86% ar gyfer grwpiau llywodraeth ac MCSau. Dim ond chwech o 13 sefydliad GIG posib a gynrychiolwyd, sydd efallai'n adlewyrchu pwysau sylweddol pandemig y coronafeirws ar y GIG adeg cynnal yr ymchwil hwn. Nid yw'r wybodaeth am weithgaredd y GIG yn gyflawn felly.

Oherwydd y cyfnod amser byr ar gyfer cwblhau'r gwaith, mae'n debygol bod rhai cysylltiadau bach a chysylltiadau unigolion wedi'u heithrio, yn arbennig rhai sydd o fewn y GIG.



### 3. GWEITHGAREDD IECHYD RHYNGWLADOL YNG NGHYMRU

Mae'r adran hon yn cyflwyno gwybodaeth waelodlin am grwpiau sy'n ymwneud â gwaith iechyd rhyngwladol perthnasol ar hyn o bryd, gan gynnwys ffynonellau cyllid, ynghyd â chyd-destun o gyfweiliadau rhanddeiliaid a ffynonellau eraill. Er mwyn gosod y cefndir, mae'n dechrau gyda gwybodaeth am ganfyddiadau ynglŷn ag ymwneud â gwaith iechyd rhyngwladol.

#### 3.1 AGWEDDAU AT WAITH IECHYD RHYNGWLADOL

Roedd rhanddeiliaid ar draws y tri grŵp (llywodraeth, CHB a MCSau) yn gwbl gadarnhaol yn eu hagwedd tuag at waith iechyd rhyngwladol Cymru. Roedd pob un a gymerodd ran i bob pwrpas yn gweld budd i ryw gyfuniad o unigolion, cymunedau a sefydliadau (y GIG fel arfer) a thrwy'r rhain, i Gymry fel cenedl. Mewn gwirionedd, roedd y manteision "gartref" yn aml yn cael eu gweld yn amlycach na'r manteision mewn GIICh. Cyfeiriodd wyth, mewn modd cadarnhaol, at y pwyslais cynyddol ar ddeall blaenoriaethau partneriaid, cynaliadwyedd a dysgu'r ddwy ffordd.

Cyfeiriwyd yn fynych at y pandemig. Mynegodd dau gyfranogydd bryder ynglŷn â pha mor briodol oedd rhoi sylw i waith rhyngwladol o ystyried effaith pandemig y coronafeirws ar y GIG a'r economi. Trafododd eraill y modd y tarfwyd ar waith rhyngwladol yn sgil, er enghraifft, colli gweithgareddau cydlynu yn y GIG neu gyfyngiadau teithio. Serch hynny, trafodwyd y pandemig yn amlach fel cyfle: man naturiol ar gyfer ailosod pethau y gallwn ni "ailadeiladu'n well" ohono, wedi i ni adolygu'r hyn rydyn ni'n ei wneud, pam a sut. Roedd y rhai a ddaethai o CHB neu MCSau yn rhoi sylw penodol i hyn, gan dynnu sylw at y modd roedd y pandemig wedi codi ymwybyddiaeth o natur fyd-eang iechyd, wedi gwella'r defnydd o dechnoleg ac wedi cryfhau cydweithio ar draws y GIG, y Deyrnas Unedig, neu'n fyd-eang.

Detholwyd y rhanddeiliaid oherwydd eu diddordeb mewn iechyd rhyngwladol a gellid disgwyl y byddai ganddynt safbwyntiau cadarnhaol ar hyn. Mae arolwg gan Ipsos MORI o weithwyr a chyn-weithwyr gofal iechyd y Deyrnas Unedig yn gosod y safbwyntiau hyn mewn cyd-destun ehangach.<sup>13</sup> Derbyniodd yr arolwg 400 o ymatebion, gydag 16 (4%) wedi'u lleoli yng Nghymru. Er bod hyn yn gymesur â maint y boblogaeth, dylid bod yn bwylllog wrth ddehongli'r canlyniadau ar gyfer Cymru o ystyried y rhif absoliwt bychan hwn. Roedd ymatebwyr o Gymru fel petaent yn ymgysylltu â gwaith rhyngwladol i raddau llai na'r garfan ehangach. Roedd ymwybyddiaeth o waith iechyd byd-eang yn is (60% yng Nghymru v 73% yn gyffredinol), ac felly roedd hi hefyd gydag ymwneud yn bersonol â gweithgaredd iechyd byd-eang ar ryw adeg (46% v 62%). Roedd 100% o'r ymatebwyr o Gymru yn credu bod cymorth y DU i GIICh yn "wedol" bwysig o leiaf, ond roedd cyfran fwy (33% v 16%) o'r farn y dylai gwariant ar gymorth leihau yn sgil y pandemig. Ymatebodd dros 80% o'r garfan gyfan yn gadarnhaol i ddatganiadau ynglŷn â dysgu dwy-ffordd a chydgyfnewid, er enghraifft bod rhannu gwybodaeth a sgiliau'n fyd-eang o fudd i ni i gyd, ac y gellir gwella'r GIG trwy ddysgu o systemau iechyd tramor.

O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r rhain yn dangos brwdfrydedd y rhai sy'n weithredol ar hyn o bryd mewn gwaith iechyd rhyngwladol yn ogystal â'r angen am waith pellach i gynnwys y gymuned gofal iechyd ehangach.

<sup>13</sup> Cyflawnwyd y gwaith maes ar-lein a'r gwaith tablu data gan Ipsos MORI ar ran THET (yr Ymddiriedolaeth Iechyd ac Addysg Trofannol). Cyflawnwyd yr holl waith dadansoddi, dehongli ac adrodd ar ganlyniadau'r arolwg gan THET. Cynhaliodd yr ymchwiliad arolwg o 400 o weithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u lleoli yn y Deyrnas Unedig a ddewisodd gymryd rhan. Roedd sampl yr Arolwg yn cynnwys 200 Meddyg Teulu, 100 o Arbenigwyr a 100 o Nyrsys. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 30ain Hydref a 17eg Tachwedd 2020. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli gan fod rhai canlyniadau yn seiliedig ar samplau o faint bychan. Nid yw'r canlyniadau yn gynrychioladol o boblogaeth gyflawn gweithwyr gofal iechyd proffesiynol y DU.

### 3.2 CYRFF GWEITHREDOL

Gan ddefnyddio'r dulliau a ddisgrifiwyd yn adran 2.3, nodwyd 38 o gyrff sy'n weithredol ym maes iechyd rhyngwladol (Atodiad 2):

- 10 sy'n gysylltiedig â'r GIG.
- Dau sy'n gysylltiedig â phrifysgolion.
- 26 MCS.

Mae natur y grwpiau hyn yn amrywio, gan gynnwys Partneriaethau Iechyd ffurfiol sydd â Memorandwm Cydddealltwriaeth (MCDd) yn cysylltu sefydliadau iechyd (e.e. adnoddau gofal iechyd, prifysgolion); dolenni sefydledig sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, er enghraifft staff y GIG yn gweithio trwy MCSau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru neu yn y gwledydd partner; a dolenni cymunedol o feintiau amrywiol, llawer ohonynt wedi'u sefydlu ers cryn amser. Ceir croesi rhwng gwahanol rannau o'r sector, gyda rhai MCSau â chysylltiadau agos â'u Byrddau Iechyd neu eu Prifysgolion lleol.

Cafodd rhywfaint o weithgareddau ychwanegol o fewn y GIG eu crybwyll yn y cyfweiliadau:

- Trwy ymdrechion i godi proffil y gwaith rhyngwladol, canfu Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM) weithgareddau yn mynd rhagddynt yn Nepal a Vanatu, sydd heb eu ffurfioli hyd yn hyn, sy'n gysylltiedig â staff gofal iechyd diaspora.
- Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (YGAC) yn rhan o brosiect dan arweiniad Prifysgol Caerdydd i ddatblygu gwasanaeth ambiwlans yn Indonesia. Mae ganddynt MCDd gyda PONT, wedi iddynt weithio gyda'i gilydd ar brosiect "ambiwylans beic modur", ac maent wedi rhoi mewnbwn yn achlysurol i ddolenni eraill sy'n seiliedig ar y GIG.
- Mae unigolion yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Prifysgol Bangor wedi ymgymryd â gwaith rhyngwladol, yn bennaf trwy fod staff wedi ymuno â phrosiectau grwpiau eraill ar sail meysydd eu harbenigedd clinigol.

Mae Tabl 1 yn dangos maint y cyrff a nodwyd yn seiliedig ar incwm blynyddol, fel y'u cofnodir gan yr UK Civil Society Almanac.<sup>14</sup>

Maint	Amrediad incwm	Mudiadau	
		Nifer	%
Meicro	<£10,000	8	21%
Bach	£10-£100,000	12	32%
Canolig	£100,000-£1,000,000	11	29%
Mawr	>£1,000,000	1	3%
Ddim yn gwybod*		6	15%

**Tabl 1: maint y 38 corff sy'n weithredol ym maes iechyd rhyngwladol, o ran incwm.**

\*Nid oedd ffigyrau ar gael ar gyfer rhai cyrff sy'n rhan o'r GIG y mae eu cronfeydd yn cael eu cadw gan gangen elusennol eu Bwrdd Iechyd, neu'r ychydig MCSau nad oeddent wedi cofrestru fel elusennau.

<sup>14</sup> NCVO (2019). [UK Civil Society Almanac 2020: Data. Trends. Insights.](#)

Yn ôl y ffigyrau hyn, mae 53% o'r holl gyrff a 63% o'r rhai y mae eu hincwm yn wybyddus, yn cael eu hystyried yn 'fach' neu'n 'feicro'. Mae hyn yn cael effaith ar allu cyrff i gael cyllid grant, fel y trafodir yn adran 3.7.

### 3.3 CYRFF CYMREIG SY'N DERBYN CYMORTH DATBLYGU SWYDDOGOL

O fewn cwmpas yr adroddiad hwn, dim ond chwe chorff Cymreig sydd wedi'u nodi fel rhai sydd wedi derbyn arian ODA cysylltiedig ag iechyd o fewn y pum mlynedd diwethaf (Tabl 2). Rhoddir manylion cronfeydd penodol yn Adran 5.

Ffynhonnell	Derbynnydd	Swm
UK Aid Direct  (Cronfa Her Elusennau Bach)	Dolen Cymru	£100,000
	Hub Cymru Africa	£120,000
	Interburns	£50,000
	Teams4U	£81,500
Yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DfID)	Interburns	£500,000
DfID, trwy Lysgenhadaeth Liberia	Life for African Mothers	£15,000
Grantiau THET	Dolen Aberhonddu-Molo	£20,000
	Dolen Betsi-Quthing	£87,000
	Prosiect Phoenix	£180,000
Y Gronfa Ymchwil i Heriau Byd-eang (GCRF)	Prosiect Phoenix	£150,000
Arts and Humanities Research Council	Phoenix Project	£140,000
MRC Public Health Intervention Development Scheme	Phoenix Project	£170,000
<b>Cyfanswm</b>		<b>£1,463,500</b>

**Tabl 2: Cyllid ODA i gyrff iechyd rhyngwladol Cymru**

Ceir prosiectau academiaidd eraill nad ydynt o fewn cwmpas yr adroddiad hwn, ond sy'n derbyn cefnogaeth gan ODA. Er enghraifft, rhestrir Prifysgol Abertawe fel un sy'n gweithredu ar grant "Unedau a Grwpiau Ymchwil Iechyd Byd-eang" DHSC/NHIR, ac mae Prifysgol Bangor yn derbyn grant GCRF o bron i £5m ar gyfer prosiect sy'n gysylltiedig â lleihau hunan-niweidio yn Ne Asia. Bydd y mathau hyn o brosiectau yn cael sylw yn yr adroddiad ehangach ar iechyd rhyngwladol sydd i ddilyn.


### 3.4 FFYNONELLAU CYLLID PRESENNOL

Yn amlwg, mae'n anarferol i gyrff iechyd rhyngwladol Cymru gael ODA. Mae'r rhan fwyaf yn cael gafael ar gronfeydd llai o ffynonellau amrywiol, megis cynlluniau grantiau bach Cymru ac Affrica, a ddsbarthodd £230,000 o gyllid yn ei rownd yn 2019 mewn grantiau o hyd at £20,000 yr un. Mae Hub Cymru Africa yn cyhoeddi manylion nifer o gronfeydd eraill sydd ar agor (gan gynnwys ODA) ar eu gwefan, ac yn eu cylchredeg yn rheolaidd trwy eu rhestr bostio.

Rhoddir crynodeb o ganfyddiadau allweddol o'r 20 ymateb i'r arolwg cyllido yma. Pan ofynnwyd iddynt sôn am unrhyw ffynhonnell cyllid, y tri ateb mwyaf cyffredin ydy cyfraniadau uniongyrchol (e.e., trwy eu gwefan) (18; 90%), rhaglen grantiau Cymru ac Affrica (17; 85%) ac incwm o weithgareddau codi arian (15; 75%). Roedd un ar ddeg (55%) wedi derbyn grantiau gan sefydliadau neu ymddiriedolaethau, pump (25%) wedi cael ODA a thri (15%) wedi cael grant THET. Ymhlith ffynonellau eraill, roedd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu a chyfraniadau gan Microsoft, Clwb Rotari a'r British Council Cymru.

Gofynnwyd i'r cyrff pa un o'r uchod oedd eu ffynhonnell cyllid fwyaf. Dangosir yr ymatebion yn Ffigur 1. Y ddwy ffynhonnell cyllid fwyaf oedd cyfraniadau uniongyrchol (7; 35%) a rhaglen grantiau Cymru ac Affrica (4; 20%). Ymhlith y ffynonellau yn y grŵp 'arall', mae grantiau THET, grantiau cenedlaethol/rhyngwladol eraill a ffynonellau cymysg. Nododd un corff mai ODA oedd eu ffynhonnell cyllid fwyaf.

**Pa un ydych chi'n meddwl ydy ffynhonnell fwyaf eich cyllid?**



**Ffigur 1: Y Ffynhonnell cyllid fwyaf ar gyfer cyrff ieuchyd rhyngwladol Cymru**

Roedd pob un ond dau yn cytuno y byddent yn dymuno cael gafael ar ragor o gyllid. Trafodir hyn ymhellach adran 5.3.

### 3.5 CADW CRONFEYDD AR GYFER PARTNERIAETHAU IECHYD Y GIG

Mae rhai Partneriaethau Iechyd sy'n perthyn i'r GIG yn cael eu cartrefu o fewn cangen elusennol eu Bwrdd Iechyd, gan ganiatáu iddynt elwa o statws elusennol, llywodraethiant a phrosesau cyfrifo'r sefydliad hwnnw. Mae hyn yn hwyluso ceisiadau am grantiau, sydd angen tystiolaeth o'r strwythurau hyn. Fodd bynnag, nid yw pob elusen Bwrdd Iechyd yn ystyried bod gwaith ieuchyd rhyngwladol yn dod o fewn eu cwmpas, sef darparu buddion i boblogaeth ardal eu Bwrdd Iechyd. Cododd hyn mewn cyfweiliadau rhanddeiliaid fel rhwystr rhag cael cyllid grant.

I ymchwilio ymhellach, cysylltwyd â naw corff elusennol Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd ac ymatebodd chwech ohonynt (66%). O'r rhain, ystyriai pedwar bod gweithgaredd ieuchyd rhyngwladol yn dod o fewn eu cwmpas oherwydd y manteision i'r Bwrdd Iechyd. Roedd un yn credu nad oedd o fewn eu cwmpas ac roedd un wedi newid nodau ac amcanion eu helusen er mwyn cefnogi cronfa ieuchyd ryngwladol.

Nid yw'n amlwg pam y ceir yr anghysondeb hwn o ran dehongli nodau elusennol Byrddau Iechyd Cymru. Fodd bynnag, mae'n ymddangos fel petai'n anghydnaws â'r polisiau sy'n cefnogi ymwneud y GIG â gwaith rhyngwladol ac mae'n debygol ei fod yn llesteirio ymdrechion rhai Partneriaethau Iechyd i gael gafael ar gyllid.

### 3.6 DIASPORA'N YMWNEUD Â GWEITHGAREDD IECHYD RHYNGWLADOL

Mae'r Deyrnas Unedig a Chymru'n gartref i boblogaethau diaspora sylweddol, yn y gymuned ac yn y GIG. Mae Caerdydd, er enghraifft, yn gartref i un o gymunedau Somaliaidd hynaf a mwyaf y Deyrnas Unedig, a sefydlwyd gan forwyr Somaliaidd yn y 19<sup>eg</sup> ganrif ac sy'n cynnwys tua 10,000 o bobl nawr. Mae'r Deyrnas Unedig wedi bod ar flaen y gad gydag ymdrechion i recriwtio gweithwyr iechyd o dramor, gan gyfrannu at duedd fwy cyffredinol lle cafwyd cynnydd o 60% yn niferoedd y doctoriaid a nyrsys mudol sy'n gweithio yng ngwledydd yr OECD dros y degawd diwethaf.<sup>15</sup> Nid oes ffigyrau ar gael ar gyfer GIG Cymru, ond yn Lloegr heddiw, cafodd 16% o'r nyrsys a 36% o'r doctoriaid eu hyfforddi y tu allan i'r Deyrnas Unedig<sup>16</sup>, a chafodd 8% eu geni mewn GIICh. Yn 2019, cynhaliodd THET arolwg o staff gofal iechyd diaspora fel rhan o'u hadroddiad "From Competition to Collaboration"<sup>17</sup>, a datgelwyd bod 70% o'r 139 o ymatebwyr yn bwriadu dychwelyd i wlad eu geni neu wlad eu treftadaeth, ac roedd 94% yn teimlo eu bod wedi datblygu sgiliau a fyddai'n gwneud cyfraniad cadarnhaol yno. Mudo ydy'r realiti newydd i lawer o'r gweithwyr iechyd y mae galw mawr amdanynt mewn byd sy'n gynyddol gysylltiedig.

Mae canfyddiadau cynnar, sydd heb eu cyhoeddi eto, o gyhoeddiad sydd i ddod gan THET yn dangos potensial sydd heb ei gyffwrdd i weithwyr iechyd diaspora ymwneud â gwaith ymgysylltu byd-eang y Deyrnas Unedig, yn ogystal â chyfluoedd na fanteisiwyd arnynt i'r GIG ddysgu o'u profiadau o systemau iechyd a diwylliannau gwahanol. Mae hynny'n adleisio canfyddiadau o'r cyfweiliadau rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, ble cafwyd cytundeb unfrydol bod ymgysylltiad diaspora yn bwysig ac y gellid ei wella yn y GIG ac yn y gymuned. Ymhlith y manteision posib a welwyd, roedd:

- Gwell ymwybyddiaeth ddiwylliannol o fewn cysylltiadau iechyd.
- Chwalu rhwystrau iaith a datblygu ymddiriedaeth rhwng partneriaid.
- Cyfraniad cysylltiadau o fewn gwledydd tuag at brosiectau llwyddiannus. Disgrifiodd un cyfranogydd sut roedd cyfeillion a pherthnasau wedi helpu i hyrwyddo casglu data, gan alluogi prosiect i roi tystiolaeth o effaith.

Fodd bynnag, disgrifiodd cyfranogwyr rwystrau rhag i aelodau diaspora ymwneud â gwaith rhyngwladol :

- Synnwyr o gael eu heithrio o sector datblygu rhyngwladol sy'n "rhy wyn".
- Diffyg cysylltiadau cymunedol â grwpiau proffesiynol neu gyllidwyr lleol (e.e. Clybiau Rotari).
- Anawsterau iaith yn cael effaith ar geisiadau am grantiau.
- Gwybodaeth am lywodraethiant a systemau cofrestru elusennau.

Er bod Panel Cyngori Is-Sahara (SSAP)<sup>18</sup> a Hub Cymru Africa yn rhoi cyngor a chymorth gyda'r materion hyn, mae'n amlwg bod rhagor o waith i'w wneud. Fel grŵp sy'n pontio rhwng y GIG a'r gymuned, gyda

<sup>15</sup> WHO (2021). [Health workforce – Migration.](#)

<sup>16</sup> UK Department of Health and Social Care (2021). [Code of practice for the international recruitment of health and social care personnel in England.](#)

<sup>17</sup> THET (2019). [From Competition to Collaboration: Ethical leadership in an era of health worker mobility.](#)

<sup>18</sup> Sub-Sahara Advisory Panel (2021). [Sub-Sahara Advisory Panel – Home.](#)

chynrychiolaeth o ddiaspora, gall fod rôl i RhCICA yn hwyluso cysylltiadau proffesiynol. Ymhlith yr awgrymiadau a'r enghreifftiau eraill a gafwyd ynglŷn â hwyluso ymwneud diaspora, roedd:

- Hyrwyddo rhagor o amrywiaeth a chynhwysiant ar bob lefel yn y sector. Cyfeiriwyd at ddatblygiadau cadarnhaol o fewn Lywodraeth Cymru, RhCICA a THET.
- Cynorthwyo cymunedau diaspora i ymwneud a gwaith rhyngwladol, er enghraifft trwy ddarparu "swyddog cymorth" penodol.
- Gwrando ar brofiadau staff gofal iechyd diaspora a mynd ati'n rhagweithiol i'w cynnwys yng ngwaith rhyngwladol y Byrddau Iechyd.

Mae'r awgrymiadau hyn yn atseinio argymhellion a wnaed gan BOND, rhwydwaith y Deyrnas Unedig ar gyfer cyrff sy'n gweithio ym maes datblygu rhyngwladol, ar gynyddu ymgysylltiad diaspora yn y sector.<sup>19</sup> Yn eu plith, mae cydnabod eu cyfraniad at ddatblygu rhyngwladol, datblygu strategaethau cyfathrebu sy'n gwrando ar eu pryderon ac yna'n mynd i'r afael a nhw, a newid naratif datblygu rhyngwladol i chwalu stereoteipiau negyddol am GIICh.

Mae angen rhagor o ymdrech i gynnwys diaspora mewn gweithgaredd iechyd rhyngwladol, a bydd hynny o fudd. O fewn y GIG, mae gan rhai cyrff rwydweithiau staff DALIE a diaspora a allai helpu gyda hyn. Mae pandemig y coronafeirws wedi cryfhau rhai rhwydweithiau diaspora ehangach: enghraifft, mae grŵp newydd o feddygon diaspora wedi dod ynghyd, gyda chefnogaeth SSAP. Yn y cyfamser, ar lefel genedlaethol, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Cynllun Gweithredu ar Hil a Chydraddoldeb gyda'r nod o wneud newidiadau diwylliannol sy'n cefnogi safbwynt gwrth-hiliol.<sup>20</sup> Bydd mynd ati'n systematig i gynnwys pobl diaspora ym mhob rhan o gymdeithas, gan gynnwys mewn gwaith iechyd rhyngwladol yn cyfrannu at y nod hwn.

---

### 3.7 MEWNWELEDIAD: NODWEDDION CYRFF SY'N YMWNEUD Â IECHYD RHYNGWLADOL.

Roedd hon yn un o'r pedair prif thema a drafodwyd gan randdeiliaid ac mae rhai manylion perthnasol wedi'u cynnwys yn adrannau 3.1 a 3.6. Cyflwynir gwybodaeth sy'n berthnasol yn ehangach yma, ynghyd â gwybodaeth bellach o'r arolwg cyllido.

#### Maint

Un o'r rhwystrau a grybwyllwyd fwyaf rhag cael gafael ar gronfeydd cyllid, yn bennaf ymhlith MCSau, oedd canfyddiad gan fudiadau eu bod yn "rhy fach". Trafododd y cyfranogwyr y beichiau sydd ynghlwm ag ymgeisio am grantiau o ran amser, ymdrech a sgiliau, sy'n elfennau y mae llawer yn eu gweld fel rhwystrau. Trafododd wyth o ymatebwyr yr angen am ragor o gyllid er mwyn datblygu, neu "broffesiynoli", fel mudiad. Roedd hyd yn oed y rhai a lwyddodd i dderbyn cyllid ODA yn disgrifio'r broses fel "brwydr galed", "strach" a "beichus". Yn gyffredinol, ceir darlun o gylich dieflig ble nad oes gan fudiadau llai y capasiti i allu ymgeisio am grantiau mwy, y mae eu hangen arnynt er mwyn datblygu capasiti a hygyrddedd, ac a fyddai'n eu gosod mewn sefyllfa ble gallent ymgeisio am grantiau mwy.

Roedd y rhan fwyaf o gyrff Cymreig a oedd wedi cael gafael ar gyllid ODA wedi gwneud hynny trwy'r Gronfa Her Elusennau Bach, sydd wedi'i hanelu'n benodol at MCSau sydd â chapasiti cymharol fach, ond eto roeddent yn gweld bod y broses bron yn ormod iddynt. Maent i gyd o faint canolig o ran incwm ac mae ganddynt yr hyn sy'n cyfateb i o leiaf un aelod staff amser llawn. Mae'n annhebygol y byddai MCSau llai na dolenni iechyd sy'n

---

<sup>19</sup> BOND (2015). [What Development Means to Diaspora Communities.](#)

<sup>20</sup> Llywodraeth Cymru (2021). [Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol – Papur y Cabinet CAB\(20-21\)21.](#)

gysylltiedig â'r GIG, sy'n gweithredu'n gyfan gwbl trwy wirfoddolwyr, yn gallu ymdopi ag ymgeisio am gronfeydd o'r fath. Mae'n bosib y gallai'r cyrff hyn wneud yn well gyda chymorth rheoli prosiectau penodol wedi'i ddarparu'n ganolog, neu trwy ymuno â chorff sy'n gallu darparu hynny. Mae un dolen o'r fath wedi'i chreu o ganlyniad uniongyrchol i waith ar yr adroddiad hwn, gyda chorff diaspora bychan a grŵp mawr sydd wedi'i leoli mewn prifysgol yn dod at ei gilydd i rannu sgiliau ac i ymgeisio am grant THET mawr.

## **Pobl**

Gwelwyd mai aelodau mudiadau sy'n allweddol i'w llwyddiant, gyda'r angen am "angerdd" wrth yrru prosiectau yn eu blaenau yn cael ei grybwyll yn aml. Mae Cymru'n ffodus bod ganddi unigolion sydd wedi ymwneud ers tro gyda iechyd a datblygu rhyngwladol. Mae eu profiad a'u harweiniad yn dod â manteision mawr i gyrff eraill, ac i' sector gyfan.

Er bod gwerth mawr i angerdd, mae dibyniaeth ar unigolion yn gallu bod yn broblem hefyd. Trafododd pymtheg o gyfranogwyr hyn, wyth ohonynt mewn perthynas â'r GIG. Yma, er gwaethaf ymrwymiad mewn egwyddor i'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol (gweler adran 4.1), ceir canfyddiad cyffredin o hyd bod cefnogaeth sefydliadol i waith rhyngwladol yn ddibynnol ar frwdfrydedd yr unigolion sy'n gysylltiedig â'r gwaith, yn arbennig y rhai sydd â dylanwad ar lefel Bwrdd. Pan fydd yr unigolion hyn yn gadael eu sefydliad, gellir colli'r egni sy'n gyrru ymgysylltu byd-eang yn sydyn a bydd grwpiau gweithredol yn dod i stop. Disgrifiodd un hyn fel "clymblaid y rhai awyddus", a bod angen fframweithiau sefydliadol cefnogol cryfach er mwyn galluogi'r bobl hyn i ddod yn "hyrwyddwyr", yn hytrach na'u bod nhw eu hunain yn ffurfio'r strwythur cefnogi. O fewn y GIG, mae cyswllt agos rhwng hyn a gweithredu'r Siarter yn effeithiol, a thrafodir hynny'n fanylach isod.

Bydd unigolion brwdfrydig, sydd â'r angerdd i ysbrydoli ac i dynnu pobl eraill i mewn, wastad yn allweddol i yrru gwaith yn ei flaen mewn unrhyw faes. Fodd bynnag, mae'n siomedig clywed i ba raddau y mae sefydliadau mawr yn y GIG yn dal i ddibynnu ar hynny. Er gwaethaf y polisiâu a strwythurau cefnogol niferus a ddisgrifir yn yr adran nesaf, mae synnwyr bod gwaith iechyd rhyngwladol yn dal i gael ei weld fel "rhywbeth bach neis ychwanegol" yn y GIG yn hytrach na rhywbeth y dylid ei feithrin fel elfen greiddiol o'i waith. Os yw Partneriaethau Iechyd i dyfu, a'r GIG i weld manteision eu gwaith yn llawn, bydd angen rhoi sylw i sefydlu strwythurau cefnogol sy'n goroesi'r newidiadau staffio anorfod ac elfennau eraill sy'n cystadlu am sylw. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran nesaf.

## 4. STRWYTHURAU SY’N CEFNOGI GWAITH IECHYD RHYNGWLADOL CYMRU


Mae’r adran hon yn disgrifio’r cyrff, y polisiau a’r ddeddfwriaeth sy’n cefnogi gwaith iechyd rhyngwladol Cymru, ynghyd ag enghreifftiau o rannau eraill o’r Deyrnas Unedig er cymhariaeth.

### 4.1 POLISI’AU A DEDDFWRIAETH CEFNOGOL

Mae gwaith iechyd rhyngwladol Cymru yn cael ei gefnogi gan lu o bolisiau, a grynhoir yn Nhabl 3, sy’n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i’r gwaith hwn.

### 4.2 CYRFF SY’N CEFNOGI

Dangosir y cyrff sy’n allweddol i waith presennol Cymru ym maes iechyd rhyngwladol a’u rhyng-berthynas Ffigwr 2. Trafodir cyrff sy’n cefnogi ymhellach yn adran 4.5.



\* Partneriaid Hub Cymru. Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yw’r partner sy’n cartrefu.

**Ffigwr 2: Cyrff allweddol yng ngwaith iechyd rhyngwladol Cymru**



Dogfen	Dyddiad	Darpariaethau allweddol
Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC (2006) 070 <sup>21</sup>	2006	Ei gwneud yn ofynnol i Brif Weithredwyr yn y GIG i ddangos ymrwymiad i weithgaredd rhyngwladol trwy: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Roi cydnabyddiaeth fel datblygu proffesiynol parhaus (DPP).</li> <li>• Lwfans absenoldeb penodol.</li> </ul> Cyfraniad at raglen Cymru ac Affrica (£50,000) o'r gyllideb iechyd.
Iechyd yng Nghymru a Thu Hwnt i'w Ffiniau: Fframwaith alluogi ar gyfer cysylltu'n rhyngwladol ym maes iechyd <sup>22</sup>	2012	Cydnabod yr angen am gefnogaeth a chydlynu systematig ar gyfer ymgysylltu rhyngwladol ym maes iechyd. Argymhellodd: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Grŵp Strategaeth Iechyd Rhyngwladol trawsadrannol o fewn Llywodraeth Cymru (nid yw'n bodoli bellach).</li> <li>• Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (IHCC – gweler isod).</li> </ul>
Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol <sup>23</sup>	2013	Dogfen arferion da ar gyfer gwaith partneriaeth rhyngwladol yn y GIG. Yn cynnwys safonau a chanllawiau ar: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gyfrifoldeb sefydliadol.</li> <li>• Llywodraethu.</li> <li>• Gweithio mewn partneriaeth.</li> <li>• Rhannu arfer da.</li> </ul> Mae pob sefydliad GIG, ac eithrio AaGIC a sefydlwyd yn ddiweddar, a'u harweinwyr wedi arwyddo.
Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol <sup>24</sup>	2015	Deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i osod amcanion ar gyfer cyflawni saith nod llesiant, sy'n seiliedig ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy. Un nod ydy dod yn "Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang".
Y Strategaeth Ryngwladol <sup>25</sup>	2020	Yn anelu at sicrhau cydweithio rhyngwladol a chyfleu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Mae Cynllun Gweithredu Cymru ac Affrica yn cyfeirio at nodau i gynyddu cefnogaeth trwy: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Weithio ar draws Llywodraeth Cymru.</li> <li>• Cefnogi gweithredu'r Siarter.</li> <li>• Datblygu perthynas strategol gyda'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO).</li> </ul>

**Tabl 3: Polisiâu sy'n cefnogi gwaith iechyd rhyngwladol Cymru.**

<sup>21</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006). [Cylchlythyr Iechyd Cymru](#).

<sup>22</sup> Llywodraeth Cymru (2012). [Iechyd yng Nghymru a thu hwnt i'w ffiniau: Fframwaith ar gyfer cysylltu'n rhyngwladol ym maes iechyd](#).

<sup>23</sup> Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (2014). [Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru](#).

<sup>24</sup> Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2021). [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(2015\)](#).

<sup>25</sup> Llywodraeth Cymru (2020). [Strategaeth Ryngwladol i Gymru](#).

---

### 4.3 CYRFF ERAILL SYDD Â PHOTENSIAL I GYFRANNU

- **Prifysgolion.** Mae ganddynt doreth o waith rhyngwladol ar y gweill (oddi allan i gwmpas yr adolygiad hwn), gan gynnwys prosiectau sy'n gysylltiedig ag iechyd megis prosiect Phoenix, yn ogystal â gwaith sy'n seiliedig ar ymchwil. Mae cysylltiadau yn bodoli gyda'r GIG a grwpiau iechyd rhyngwladol cymunedol, ond ar hyn o bryd, mae'r trefniadau'n ad hoc, heb drefniant cyson ar gyfer cysylltu â'r cyrff allweddol a nodir uchod.
- **Comisiwn Bevan** Melin drafod annibynnol sy'n canolbwyntio'n benodol ar arloesi, gan gynnwys mewn technoleg, ac iechyd a gofal seiliedig ar werth. Mae'n annog trosi syniadau yn ymarfer yn y GIG, gan gefnogi staff gyda mentora trwy raglenni 'Cymrodyr', 'Enghreifftwyr' a rhaglenni eraill. Mae diddordeb cryf mewn rhannu arferion da i'r ddau gyfeiriad yn rhyngwladol a'r potensial ar gyfer 'arloesi darbodus' trwy bartneriaeth a GIICh. Mae hwn yn faes allweddol ble gall y GIG elwa o waith iechyd rhyngwladol ac o'i staff diaspora, fel yr ystyriwyd mewn sesiwn Arloesi Bwrdd Crwn THET yn 2019.<sup>26</sup> Mae'r adroddiad sy'n crynhoi'r gwaith hwn yn cynnwys sylw gan un cyfranogwr, "Nid yw dysgu gan GIICh yn dod i mewn i'r Deyrnas Unedig trwy drylediad goddefol: mae angen ymgysylltu gweithredol a phwrpasol gan nifer o randdeiliaid." Mae Comisiwn Bevan mewn sefyllfa dda i fod yn un o'r rhanddeiliaid hynny, yn arbennig o gydnabod nad yw arloesiad posib yn ddefnyddiol oni bai y caiff ei weithredu wedyn.
- **Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Llesiant y Boblogaeth** Sefydliad a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi ymchwil ar storfeydd presennol o ddata ar iechyd y boblogaeth. Mae'n dod â phobl allweddol ynghyd o ICC a Phrifysgolion Bangor, Caerdydd ac Abertawe ac yn denu cyllid grant ar gyfer prosiectau penodol. Mae diddordeb mewn cydweithio'n rhyngwladol, yn arbennig mewn meysydd gweithgaredd sydd eisoes ar y gweill, megis iechyd a llesiant yn y blynyddoedd cynnar.
- **Hwb Gwyddorau Bywyd** Wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru hefyd, sefydlwyd yr hwb i weithio gyda diwydiant, GIG Cymru, prifysgolion a gofal cymdeithasol i gyflwyno datrysiadau arloesol i broblemau gofal iechyd. Mae datblygiadau digidol a gofal iechyd ar sail gwerthoedd yn feysydd sydd o ddiddordeb ar hyn o bryd, ac mae'r dull cydweithredol o weithio yn annog ceisiadau gan gonsortia am gyllid grant. Mae cysylltiadau gyda Llywodraeth y DU, er enghraifft, gyda'r Adran dros Fasnach Rhyngwladol (DIT).
- **Academi Wales.** Y ganolfan ragoriaeth ar gyfer arweinyddiaeth a rheoli gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n darparu adnoddau cefnogol a hyfforddiant ar gyfer arweinyddiaeth a datblygu sefydliadol, llywodraethu a gwella parhaus. Mae wedi bod yn gartref i raglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol (CDRh) Cymru ac Affrica, sydd wedi'i hatal ar hyn o bryd.
- **THET.** Elusen a chwmini ar lefel y Deyrnas Unedig sy'n canolbwyntio ar ddatblygu capasiti systemau iechyd mewn GIICh trwy bartneriaethau iechyd. Mae ganddo ddiddordeb mewn gwaith perthnasol ym mhob un o bedair cenedl y Deyrnas Unedig; yng Nghymru, mae ganddo MCDd gyda RhCICA ac mae'n sylwedydd ar ei Bwrdd. Mae ganddo gysylltiadau â Llywodraeth y DU a Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ac mae'n ceisio cyllid rhaglennol newydd o gyfeiriadau amrywiol, gan gynnwys ODA y DU a diwydiant. Yn Lloegr, mae wedi ffurfio partneriaeth gyda Health Education England (HEE) i ddarparu rhaglen Improving Global Health Fellowship<sup>27</sup>, ac mae'n cynnal prosiectau sydd wedi'u hariannu gan ODA ar ran yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) a'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO).

---

### 4.4 MODELAU ERAILL YN Y DEYRNAS UNEDIG

Mae o fudd i bob un o bedair cenedl y DU ein bod yn edrych ar ac yn dysgu gan ein dulliau ein gilydd o ymwneud ag iechyd rhyngwladol. I'r perwyl hwn, mae gan Gymru gynrychiolaeth yn Rhwydwaith Unedau Cydlynus Iechyd Byd-eang y DU ac Iwerddon, sef grŵp anffurfiol sy'n rhannu arferion a phrofiadau. Yn dilyn, mae enghreifftiau y gallai Cymru eu hystyried wrth ddatblygu ei gweithgaredd iechyd rhyngwladol.

---

<sup>26</sup> THET (2020). [Innovation: How the NHS Can Learn More from Africa And Asia.](#)

<sup>27</sup> Health Education England (2021). [Improving Global Health through Leadership Development programme.](#)

#### 4.4.1 YR ALBAN

---

Mae'r Alban yn gallu gosod ei pholisi a'i chyllid datblygu rhyngwladol mewn modd nad yw Cymru'n gallu, trwy gytundeb gyda Llywodraeth y DU a gytunwyd yn fuan ar ôl datganioli. Yn 2019, cyfrannodd Llywodraeth yr Alban £17m tuag at Wariant ODA y DU (0.1% o'r cyfanswm).<sup>28</sup> Nod Strategaeth Datblygu Rhyngwladol 2016 Llywodraeth yr Alban ydy cyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, yn seiliedig ar bartneriaethau, cydweithio a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae ffocws ar ychydig o wledydd partner yn unig y mae gan yr Alban gysylltiadau hanesyddol â nhw: Malawi, Zambia, Rwanda a Phacistan.

Ailfodelodd GIG yr Alban ei waith rhyngwladol yn dilyn adolygiad gan Goleg Brenhinol Meddygol a Llawfeddygon Glasgow.<sup>29</sup> Cymeradwyodd Llywodraeth yr Alban a GIG yr Alban ei argymhellion, gan lansio Rhaglen Dinasyddiaeth Fyd-Eang yr Alban yn 2018.<sup>30</sup> Caiff ei chefnogi gan:

- Fwrdd Rhaglen Dinasyddiaeth Fyd-Eang GIG yr Alban, sy'n goruchwyllo gweithredu argymhellion yr adolygiad.
- Y Pwyllgor Gweithredol ar Iechyd Byd-eang, sydd dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Meddygol ac yn cynnwys cynrychiolaeth eang o sectorau perthnasol.
- Uned Gydlynw Iechyd Byd-eang yr Alban, sy'n gweithredu fel pwynt canolog ar gyfer cydlynw gweithgareddau.

Mae'r rhai sy'n ymwneud â'r gwaith wedi gweld cynnydd yng ngweithgaredd iechyd byd-eang yr Alban ers yr ailstrwythuro hwn. Cododd yr ailstrwythuro ei hun ymwybyddiaeth a datgelodd weithgaredd a oedd eisoes ar droed. Mae'r rhaglen yn anelu at greu'r amodau sy'n cefnogi dinasyddiaeth fyd-eang a gwirfoddoli yn GIG yr Alban trwy waith ar lefelau strategol, cenedlaethol, Bwrdd Iechyd ac unigolion. Mae gan bob Bwrdd Iechyd "Hyrwyddwr Arweiniol", sy'n gyfrifol am ysgogi ymgysylltu byd-eang yn lleol, ac mae'r Uned Gydlynw yn cynnal cofrestr o staff sy'n cymryd rhan a'r rhai sydd â diddordeb. Mae'r niferoedd hyn wedi tyfu'n gyson ers dechrau'r rhaglen, ac mae rhagor o rwydweithio wedi arwain at sefydlu grwpiau newydd yn seiliedig ar wahanol feysydd gwaith. Bydd yr hyrwyddwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu profiadau. Gwneir y gorau o'r gwerth i DPP trwy gofnodi profiadau gwirfoddolwyr a chydweithredu rhwng y GIG a sefydliadau academaidd.

Mae integreiddio ar lefel uchel trwy Fwrdd a Phwyllgor Gweithredol y Rhaglen yn galluogi prosiectau i gael eu treialu ac wedyn, os ydynt yn llwyddiannus, gellir eu hymgorffori mewn polisiâu ac arferion craidd. Fel enghraifft, mae contractau hyblyg yn cael eu treialu ar hyn o bryd, gyda threfniadau wedi'u ffurfioli ar gyfer amser i ymgymryd â gwaith iechyd byd-eang, er mwyn denu arbenigwyr i swyddi sy'n anodd eu llenwi.<sup>31</sup>

#### 4.4.2 LLOEGR

---

Mae'n anoddach gwahanu strwythurau sy'n perthyn yn llwyr i 'Loegr' oddi wrth y rhai sy'n gysylltiedig a gweithgareddau datblygu rhyngwladol adrannau Llywodraeth y DU, sy'n tueddu i gael eu sianelu trwy'r cyrff Seisnig mawr y mae ganddynt gysylltiadau agosach â hwy. Er enghraifft, mae Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Deyrnas Unedig (DHSC) yn cefnogi prosiectau sydd wedi'u hariannu gan ODA a gynhelir trwy Public Health England (gweler adran yr ODA isod). Fodd bynnag, mae dwy enghraifft yn dangos ffyrdd o ddatblygu a gwreiddio gwaith iechyd rhyngwladol.

---

<sup>28</sup> Cofnodir bod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu £2m o ODA yn 2019. Mae'n werth nodi, er y gallai hwn fod wedi'i wario ar weithgareddau elusennol, yn bennaf trwy raglen Cymru ac Affrica, nid yw'n cwrdd â'r diffiniad o ODA. Trafodir hyn yn adrannau 5.1.1.

<sup>29</sup> Royal College of Physicians and Surgeons of Glasgow (2017). [Global Citizenship in the Scottish Health Service: The value of international volunteering.](#)

<sup>30</sup> NHS Scotland (2021). [NHS Scotland Global Citizenship Programme.](#)

<sup>31</sup> Royal College of Ophthalmologists (2019). [Scottish Government trials Global Citizenship posts.](#)

## Health Education England: Cyfarwyddiaeth Ymgysylltu Byd-eang

Y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu Byd-eang yn HEE sy'n rheoli holl agweddau rhyngwladol gweithlu GIG Lloegr, gan gynnwys recriwtio rhyngwladol a lleoliadau gwaith byd-eang i staff y GIG.<sup>32</sup> Mae wedi datblygu ar sylfeini gwaith blaenorol, ac yn cael ei gyrru gan gydnabyddiaeth amlwg o'r manteision i'r GIG o gael gweithlu sy'n ymgysylltu'n fyd-eang. Ymhlith y rhaglenni, mae:

- Grŵp Gwirfoddoli Rhyngwladol y GIG, dan gadeiryddiaeth HEE, i hwyluso a chefnogi lleoliadau gwaith tramor.
- Gwella Iechyd Byd-eang trwy Ddatblygu Arweinyddiaeth (IGH): rhaglen ryngddisgyblaethol sy'n cynnig lleoliadau gwaith chwe mis mewn lleoliad sy'n brin o adnoddau. Y nod yw cynyddu capasiti yn y wlad bartner, a datblygu sgiliau personol ac arweinyddiaeth yn staff y GIG sy'n cymryd rhan ar yr un pryd.
- Rhaglen Dysgwyr Fyd-eang, sy'n cefnogi recriwtio moesegol i'r GIG o dramor gyda swyddi 'ennill, dysgu, dychwelyd' tymor byr, y mae'n anelu at eu llenwi ar sail gylchol.
- Y Cynllun Hyfforddi Meddygol Ôl-radd Rhyngwladol. Mae graddedigion meddygol tramor yn ymgymryd a swyddi ychwanegol yn y GIG, dan nawdd eu gwledydd eu hunain, ac yn dychwelyd adref wedi iddynt gwblhau hyfforddiant yn seiliedig ar fedrau mewn maes meddygol arbenigol.
- Rhaglen Gwirfoddoli Rhithwir newydd, wedi'i sbarduno gan y pandemig, eto mewn partneriaeth â THET.<sup>33</sup> Bydd gwirfoddolwyr yn gweithio o bell i ateb gofynion sy'n flaenoriaethau a ddiffiniwyd gan bartneriaid cenedlaethol mewn nifer o ardaloedd a gwledydd. Mae rhai, ond nid y cyfan, yn gysylltiedig â'r ymateb i COVID-19.

Mae HEE yn partneru gyda THET i ddarparu lleoliadau gwaith rhyngwladol sy'n amlwg yn cryfhau systemau yn y wlad bartner, yn unol â blaenoriaethau lleol, yn ogystal â darparu cefnogaeth gref i'r gwirfoddolwr. Mae ffocws ar gasglu tystiolaeth o'r budd i wirfoddolwyr ac i'w sefydliadau GIG, yn seiliedig ar barthau gwerthuso presennol. Mae eu sylfaen tystiolaeth eu hunain, ynghyd â gweithiau eraill a gyhoeddwyd, yn cefnogi darparu cyllid ar gyfer y gwaith hwn, a ddaw o gyllideb graidd HEE.<sup>34,35</sup>

## Rhwydweithiau Cysylltiadau Iechyd Rhyngwladol Northumbria

Mae gan Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Gofal Iechyd Northumbria bartneriaeth ers 22 mlynedd gyda Chanolfan Feddygol Gristnogol Kilimanjaro yn Tanzania, a rhwydwaith yn yr ardal honno o dros 30 o gysylltiadau iechyd eraill.<sup>36</sup> Fel nifer o brosiectau o'r fath, dechreuodd y gwaith rhyngwladol gydag unigolyn brwdfrydig ac mae wedi'i ymgorffori yn ethos yr Ymddiriedolaeth ers hynny, ac wedi ennill nifer o wobrau. Cyn pandemig y coronafeirws, roedd tua 60 o ymweliadau y flwyddyn yn cael eu cynnal, naill ai i neu o'r sefydliadau partner yn y GICCh.

Caiff y gwaith hwn ei ariannu ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth, fel rhan o'i rhaglen Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol Byd-eang, ac Elusen yr Ymddiriedolaeth, gyda'r ddau Fwrdd yn cymeradwyo achos busnes blynyddol. Mae cymeradwyo'r gyllideb, yn ogystal ag ymrwymiad ehangach y sefydliad yn seiliedig ar y manteision o gymryd rhan mewn gwaith rhyngwladol. Mae'r swm cychwynnol o £15,000 y flwyddyn a fuddsoddwyd gan yr Ymddiriedolaeth wedi tyfu i adlewyrchu cynnydd yn y gweithgaredd, yn enwedig datblygiad rhaglenni i hyfforddeion, ac fe'i adlewyrchir gan gynnydd yn yr arian a godir gan y gwirfoddolwyr rhyngwladol niferus sy'n cymryd rhan. Mae'r manteision y ceir tystiolaeth ohonynt trwy'r rhaglenni hyn, megis datblygu proffesiynol, recriwtio a chadw staff, yn cael eu hystyried yn

<sup>32</sup> Health Education England (2021). [Global Engagement](#).

<sup>33</sup> THET (2021). [Volunteer with THET](#).

<sup>34</sup> Zamora, B. et al. (2019). "The value of international volunteers' experience to the NHS", *Globalization and Health*, 15, 31.

<sup>35</sup> Tyler, N. et al. (2018). "The benefits of international volunteering in a low-resource setting: development of a core outcome set", *Human Resources for Health*, 16, 69.

<sup>36</sup> Northumbria Healthcare NHS Foundation Trust (2019). [International Health Links Networks](#).

ganlyniadau da i'r buddsoddiad. Er enghraifft, mae rhaglen hyfforddi fyd-eang Northumbria yn denu meddygon dan hyfforddiant, ac mae llawer o'r rheiny'n aros yn yr Ymddiriedolaeth fel meddygon ymgynghorol.

Agweddau ar y tair rhaglen yma a all fod yn ddefnyddiol yng Nghymru ydy:

- Strategaeth, integreiddio a chydlynu Rhaglen Dinasyddiaeth Fyd-Eang yr Alban, a'r cydweithio rhwng y GIG, academia ac eraill a ddaw yn sgil hynny.
- "Hyrwyddwyr" mewn Byrddau Iechyd a chofrestrï o staff sy'n ymwneud â'r cynlluniau.
- Lleoliadau gwaith tramor – yn llythrennol neu'n rhithiol – i staff gofal iechyd.
- Defnydd o ymgysylltu byd-eang, er enghraifft, trwy gytundebau hyblyg, i ddenu staff ac i gefnogi recriwtio moesegol o dramor.
- Casglu tystiolaeth yn systematig o'r manteision i unigolion ac i'w sefydliadau o waith iechyd rhyngwladol.
- Mabwysïadau gwaith iechyd rhyngwladol fel rhan greiddiol o waith y GIG, gyda chefnogaeth gref ar lefel Bwrdd yn y GIG.
- Buddsoddi o'r gyllideb iechyd i gefnogi'r gwaith uchod.

---

#### 4.5 MEWNWELEDIAD: NODWEDDION CYRFF A PHOLISÏAU SY'N CEFNOGI

Dyma'r thema a drafodwyd fwyaf gan y rhanddeiliaid yn y tri grŵp. Mae'r adran hon yn cyflwyno rhai o nodweddion allweddol yr elfennau cefnogol hyn, ynghyd â thrafodaeth amdanynt, gan gynnwys safbwyntiau'r rhanddeiliaid.

Pytiog oedd y wybodaeth oedd gan bobl ynglŷn â pholisïau cefnogol; roedd y rhai a drafododd y rhain yn teimlo'n aml eu bod yn ddefnyddiol, ond bod bwlch rhwng bwriadau a gwir arferion. Roedd awydd sylweddol am adolygiad o strategaeth yn Llywodraeth Cymru, er mwyn hoelio sylw ar y deilliannau y bwriedir eu cael ac effeithiau gartref a thramor.

##### Llywodraeth Cymru

Cafwyd llawer o sylwadau cadarnhaol gan MCSau ynglŷn â'r gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru trwy rhaglen Cymru ac Affrica. Mae hyn yn gorwedd yn y Gyfarwyddiaeth ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol a Datblygu, sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r cyllid (£1.3m y flwyddyn) ar gyfer gweithgareddau Cymru ac Affrica. Caiff y cyllid hwn ei wario ar ei chynllun grantiau, y rhaglen Cyfleoedd Dysgu Rhyngwladol (sydd wedi'i hatal ar hyn o bryd oherwydd y pandemig) a chyllid ar gyfer HCA. Mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfrannu £50,000 tuag at gyllideb Cymru ac Affrica: dyma'r ffigur a nodwyd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru yn 2006, ac a fwriadwyd ar y pryd i fod yn gydnabyddiaeth o'r arbedion costau o gyflogi staff a hyfforddwyd dramor. Yr adran hon sy'n gyfrifol hefyd am ofal iechyd, gan gynnwys polisi iechyd, trwy ei Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

##### Y GIG

Dyma pwy sy'n cyflogi'r staff proffesiynol perthnasol ac yn cefnogi eu hymwneud a chynlluniau trwy'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol. Mae iechyd yn faes sydd wedi'i ddatganoli ac mae GIG Cymru yn cynnwys saith Bwrdd Iechyd, sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd yn eu hardal; tair Ymddiriedolaeth, sy'n darparu gwasanaethau ledled Cymru; un Awdurdod Iechyd Strategol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), sy'n gyfrifol am gynllunio a datblygu'r gweithlu; a dau gorff sy'n darparu gwasanaethau cefnogi i bob sefydliad: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (GGGC) a'r Bartneriaeth Cydwasaethau.

Yn y cyfweiliadau rhanddeiliaid, trafodwyd strwythurau'r GIG yn bennaf gan bobl yn y grwpiau CHB a Llywodraeth. Er bod nifer o sefydliadau'r GIG yn gefnogol i waith rhyngwladol a bron pob un wedi arwyddo'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol, mae'r rhan fwyaf o gyfranogwyr yn credu nad yw'r gwaith hwn yn cael ei ystyried

yn “fusnes craidd” ac na fydd yn datblygu oni bai bod hynny’n newid. Soniodd y rhai a gyfwelwyd am ddiffyg amser i’w ymrwymo i’r gwaith hwn o lefel swyddogion gweithredol i lawr: mae’n cael ei gefnogi’n ddamcaniaethol, ond yn ymarferol, nid yw’n cael ei weld fel blaenoriaeth ac ychydig iawn o adnoddau cefnogol a geir. Yn aml, nid oes sianeli cyfathrebu amlwg gyda staff ynglŷn â gwaith rhyngwladol ac nid yw sefydliadau’n gwybod i sicrwydd faint o staff sy’n cymryd rhan ac ym mha ffordd.

Disgrifiodd tri o randdeiliaid brosiect a oedd yn dangos manteision posib adnodd wedi’i neilltuo. Gosododd BIPCTM brosiect i dîm o hyfforddeion rheoli i godi proffil gwaith iechyd rhyngwladol. Trwy ddigwyddiadau a chyfathrebu, daethant ar draws gwaith a oedd yn digwydd eisoes, datblygon nhw frwdfrydedd ac fe ddenon nhw ragor o staff i gymryd rhan, a chynyddu cefnogaeth y Bwrdd. Ond prosiect dros dro oedd hwn, ac heb eu sylw nhw, mae proffil y gwaith rhyngwladol yn gostwng eto.

Roedd canfyddiad cryf bod y GIG yn elwa o ymgysylltiad staff mewn gwaith rhyngwladol, gyda 18 yn trafod manteision i sefydliadau ac i unigolion. Soniwyd yn fynych am sgiliau arwain gwell, mwy o hyblygrwydd a syniadau newydd. Fodd bynnag, roedd llawer yn teimlo nad ydy’r dysgu sydd o fudd i’r GIG yn cael ei gipio, ei gyfeirio na’i ymgorffori mewn ymarfer yn dda wrth i bobl ddychwelyd. Awgrymodd rhai y gallai clymu gweithgaredd rhyngwladol â rhaglenni gwella ansawdd sydd eisoes ar waith greu ffocws a chyfeiriad ar gyfer gwella hynny.

Mae corff cynyddol o dystiolaeth o’r budd i’r GIG, gyda rhywfaint ohono’n ystyried cost-ffeithiolrwydd buddsoddi yn y gweithgaredd hwn. Yn 2017, cynhaliodd Partneriaethau Iechyd Byd-eang Caergrawnt ddadansoddiad Enillion Cymdeithasol o Fuddsoddiad ar un o’u partneriaethau mawr.<sup>37</sup> Canfu, o fewn y DU, bod o leiaf £3.30 o werth cymdeithasol yn cael ei greu am bob £1 a fuddsoddwyd. Yn 2019, cymharodd prosiect MOVE HEE ddeilliannau a gofnodwyd gan wirfoddolwyr, ac a gasglwyd fel mater o drefn wrth iddynt ddychwelyd, â meini prawf Banc y Byd ar gyfer gwerthuso rhaglenni marchnad lafur.<sup>38</sup> Gwnaethon nhw ganfod enillion cynhyrchiant o wirfoddoli rhyngwladol o hyd at 37% ar gyfer meddygon a 62% ar gyfer nyrsys.

### Y Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol

Mae’r disgrifiadau o strwythurau yn y GIG yn awgrymu, wyth mlynedd wedi iddo gael ei fabwysiadu, nad yw’r Siarter yn cael ei weithredu’n llawn hyd yn hyn. Ategir hynny gan ganfyddiadau cynnar gwerthusiad o’r Siarter trwy gyfweiliadau rhanddeiliaid, a gychwynnwyd gan IHCC yn 2019 ac y torrodd y pandemig ar ei draws.<sup>39</sup> Ymhlith y themâu a nodwyd, mae:

- Diffyg adnoddau ac amser wedi’u neilltuo: e.e. Nid oedd cyfrifoldeb am waith rhyngwladol yn cael ei ymgorffori mewn cynlluniau gwaith
- Tystiolaeth gyfyngedig o fonitro a gwerthuso rheolaidd, gan ei gwneud hi’n anodd dangos effaith.
- Diffyg strategaeth gyfathrebu, gydag ymwybyddiaeth gyfyngedig o’r gwaith y tu hwnt i lefel bwrdd.

Adleisiwyd y canfyddiadau hyn gan randdeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer y gwaith hwn. Yn rhannol, maent yn adlewyrchu’r pwysau cyffredinol sydd ar y GIG, hyd yn oed cyn y pandemig, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi, yn ddealladwy, i wasanaethau hanfodol. Fodd bynnag, mae’r siarter yn bodoli fel cydnabyddiaeth y bydd ymgysylltu systematig â gwaith rhyngwladol o fudd i’r GIG. Ni fydd hynny’n cael ei wireddu heb roi ffocws ar y gwaith.

<sup>37</sup> Cambridge Global Health Partnerships (2017). [Social Return on Investment](#).

<sup>38</sup> Tyler, N. et al. (2018). “[The benefits of international volunteering in a low-resource setting: development of a core outcome set](#)”, *Human Resources for Health*, 16. 69.

<sup>39</sup> Cyfathrebu personol gan yr ymchwilyr, a ddarparodd grynodeb o’r pwyntiau allweddol o’r data hyd yn hyn.

## Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd

Sefydlwyd y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (IHCC) mewn ymateb i adroddiad “Iechyd yng Nghymru a Thu Hwnt i’w Ffiniau” 2012 a chafodd ei chyllido i ddechrau gan Lywodraeth Cymru gyda’r nod o gefnogi a chydlynu gweithgaredd rhyngwladol y GIG.<sup>40</sup> Nid yw’n derbyn cyllid uniongyrchol bellach ac mae’n cael ei chynnal trwy gyllideb Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae’n gartref i Grŵp Gweithredu’r Siarter, gyda chynrychiolaeth o bob un o’r sefydliadau sydd wedi arwyddo’r Siarter (Byrddau Iechyd ac ati), ac mae wedi bod yn datblygu hyfforddiant ar ddinasyddiaeth fyd-eang yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae wedi colli ei swyddogaethau rhwydweithio a chydlynu ehangach.

Trafodwyd yr IHCC gan naw o gyfranogwyr, a soniodd y rhan fwyaf ohonynt am lefelau siomedig o gydlynu. Dywedodd un “...i bob pwrpas, nid yw’r IHCC yn bodoli”: mynegiant go eithafol o safbwynt cyffredin. Cyfeiriai rhai yn ôl at gwpl o flynyddoedd gweithgar wedi iddi gael ei sefydlu, a oedd yn cyfateb i’r cyfnod yr oedd yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Mewn blynyddoedd diweddar, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), sy’n cartrefu’r IHCC, wedi dod yn Ganolfan Gydweithredu’r WHO ar gyfer rhanbarth Ewrop, a soniodd rhai ei bod yn ymddangos fel petai diddordeb ac adnoddau wedi eu hailgyfeirio at hynny. Mae Grŵp Gweithredu’r Siarter yn cael ei werthfawrogi gan yr aelodau hynny a gyfwelwyd, fel yr unig fforwm ar gyfer rhannu profiadau ac ymarfer. Fodd bynnag, hyd yn oed cyn y pandemig, mae rhai o’r bobl a gyfwelwyd yn cyfeirio at gyfnodau o ddiffyg gweithgaredd, gan ddibynnu ar flaenoriaethau staff ICC.

I ategu’r canfyddiadau hyn, mae Pecyn Cymorth Gweithredu ar gyfer y siarter eto i’w gwblhau. Er y gallai hyn fod yn symptom o ymgysylltiad anghyson y GIG, nid yw gwefan yr IHCC yn cefnogi ei rôl fel cydlynnydd: mae dolenni i’r Siarter ac i rai cyrff perthnasol, ond nid yw’r gronfa ddata o bartneriaethau yn gweithio ac mae’r rhestr o gyfleoedd cyllido wedi dyddio. Yn seiliedig ar hynny ac ar gyfweiliadau’r rhanddeiliaid, nid yw’r IHCC yn gweithredu ar hyn o bryd fel canolbwynt rhwydweithio y tu hwnt i’r GIG. Cafodd ei sefydlu “...i weithredu fel ‘tŷ clirio’ ar gyfer gwybodaeth, cymorth ac adnoddau sy’n ymwneud ag ymgysylltiad iechyd rhyngwladol” ond nid yw’n cyflawni’r nodau hyn bellach.

## Cydlynu

Yn olaf, trafododd ugain o gyfranogwyr eu hawydd i gael gwell cydlynu ar waith iechyd rhyngwladol. Crybwyllwyd amryw o agweddau gwahanol ar hynny, gan gynnwys arweinyddiaeth a chyfeiriad er mwyn cael yr effaith fwyaf posib, a chipio a rhannu dysgu yn well. Ond ystyr fwyaf cyffredin “cydlynu” oedd rhwydweithiau ehangach a chryfach, gan ffurfio cyswllt yn ymarferol rhwng y gwahanol MCSau ac unigolion sy’n gysylltiedig â’r gwaith, ynghyd â sefydliadau’r GIG a rhai academaidd.

Mae **Hub Cymru Africa** (HCA) yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, ac fe’i sefydlwyd er mwyn cefnogi cyrff sy’n ymwneud â phob rhan o raglen Cymru ac Affrica.<sup>41</sup> Cafodd ei sefydlu yn 2015 fel partneriaeth o bedwar corff a fodolai eisoes: Masnach Deg Cymru, Panel Cyngori Is-Sahara (SSAP), Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica (RhCICA), a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru (CMRhC). Mewn cyfweiliadau, cafodd HCA ganmoliaeth am ei hyfforddiant, digwyddiadau a chefnogaeth gyffredinol, er enghraifft, “Fyddwn i ddim wedi gallu gwneud hynny oni bai am yr Hub”. Fodd bynnag, trafododd pedwar y gwahaniaethau rhwng gwaith iechyd rhyngwladol yn benodol a datblygu rhyngwladol yn gyffredinol, gyda’r cyntaf o’r rhain yn dibynnu mwy ar arbenigedd proffesiynol a’r cysylltiad â’r GIG, ac â deilliannau niweidiol posib o’i wneud yn wael. Mae gan staff HCA sy’n cefnogi’r gwaith hwn brofiad helaeth ym maes datblygu rhyngwladol, ond ychydig iawn o brofiad penodol ym maes iechyd neu o gysylltiadau yn y GIG. Tra bo gan partneriaid eraill HCA staff penodedig gyda phrofiad penodol, nid oes gan RhCICA, ac mae hyn yn ymddangos yn annheg. Nid yw’r bwlch ymddangosiadol hwn yn cael ei lenwi gan yr IHCC, sydd â’r cysylltiadau, ond sydd heb gapasiti cefnogi wedi’i gyllido.

<sup>40</sup> Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd (2021). [Croeso i’r Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd.](#)

<sup>41</sup> Hub Cymru Africa (2021). [Croeso i Hub Cymru Africa: Cefnogi partneriaethau yng Nghymru ac Affrica.](#)

**Mae RhCICA** yn fudiad gwirfoddol o unigolion sy'n ymwneud â gwaith iechyd rhyngwladol.<sup>42</sup> Ei nod yw cefnogi ac eirioli ar ran partneriaethau iechyd rhyngwladol. Mae llawer o'r Ymddiriedolwyr yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol, ac mae'n ffurfio dolen rhwng y GIG a mudiadau cymunedol. Mae'n derbyn rhywfaint o gymorth gweinyddol ac ymarferol gan HCA. Trafododd deuddeg o gyfranogwyr weithgareddau RhCICA, yn arbennig ei gyfeiriad ar gyfer y dyfodol a chasglwyd safbwyntiau pellach mewn arolwg ar-lein. Roedd awydd cryf i RhCICA ddatblygu ei swyddogaeth rhwydweithio, gan greu cysylltiadau gwell rhwng grwpiau gweithredol, y GIG a'r sector datblygu rhyngwladol ehangach. Awgrymodd rhai y dylai gynnal cofrestr o unigolion a grwpiau sydd â diddordeb, a gweithio i gynnwys grwpiau diaspora. Y manteision posib a welwyd o wneud hyn oedd canfod cyfleoedd i gydweithio, i rannu profiad a dysgu, ac i ganfod ffynonellau cyllido. O ystyried ei aelodaeth amrywiol, arbenigol, ei gysylltiadau agos â'r GIG a'i annibyniaeth, mae RhCICA mewn sefyllfa dda i gyfrannu at osod cyfeiriad a strategaeth ar gyfer gwaith iechyd rhyngwladol.

Yn gyffredinol, roedd synnwyr cryf y gallai effaith adnoddau bychain hyd yn oed, fod lawer yn fwy petai modd harneisio a rhoi ffocws i ymdrechion gwasgarog, ac yna gallai'r gwaith dyfu.

### **Polisiau, deddfwriaeth a strategaeth**

Ac eithrio'r Siarter, ychydig o gyfranogwyr a drafododd, yn ddigymell, y polisiau a restrir yn adran 4.1 sy'n cefnogi gwaith iechyd rhyngwladol. Crybwyllwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan chwech, a oedd yn gweld cysylltiad cryf rhwng gwaith iechyd rhyngwladol a nod "cyfrifoldeb byd-eang" y Ddeddf, ond dywedodd pedwar ei bod yn ymddangos fel petai hyn, yn ymarferol, yn "gyfle sy'n cael ei golli". Nid ydynt yn gweld y GIG yn defnyddio hyn i osod amcanion neu i fonitro cynnydd o ran gweithredu'r ddeddf, neu nid ydynt yn gweld Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlwg yn clymu'r ddau beth ynghyd. Byddai gwneud hynny'n ymddangos yn ffordd naturiol o annog trosglwyddo gwaith rhyngwladol i mewn i fusnes craidd y GIG.

Yn ei hadroddiad yn 2020, nododd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol mai'r nod "cyfrifoldeb byd-eang" yw'r un sy'n cael ei ddeall leiaf a'i weithredu leiaf o blith saith nod y Ddeddf.<sup>43</sup> Mae'r adroddiad yn cyfeirio at y Strategaeth Ryngwladol a rhaglen Cymru ac Affrica fel cyfleoedd yn hynny o beth, ac un o'r "10 newid syml" er mwyn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r nod hwn ydy: "Hyrwyddo cyfleoedd arweinyddiaeth i'ch staff er mwyn deall cyd-destunau byd-eang".<sup>44</sup> Mae hyn yn cyfeirio'n benodol at raglen Cyfleoedd Arweinyddiaeth Rhyngwladol Cymru ac Affrica, ond gallai'n rhwydd gynnwys cyfleoedd rhyngwladol eraill.

Pan ofynnwyd iddynt yn benodol am Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru, roedd llawer heb fod yn ymwybodol ohoni, sydd efallai'n adlewyrchu'r ffaith ei bod yn newydd neu ei bod wedi ei chyhoeddi yn ystod y pandemig. O'r rhai a oedd yn ymwybodol ohoni, teimlai rhai nad oedd ei nodau yn gyson â datblygu rhyngwladol, er bod cynllun gweithredu penodol ar gyfer Cymru ac Affrica.

Serch hynny, mynegodd pymtheg o gyfranogwyr awydd cryf am strategaeth eglur mewn perthynas â iechyd rhyngwladol, naill ai ar lefel y llywodraeth, neu'r GIG, neu'r ddwy. Gwelwyd bod yr angen am nodau ac amcanion eglur a chydlynus ar gyfer y gwaith yn allweddol i gynyddu maint ac effaith, ac i sicrhau manteision i'r ddwy ochr. Soniodd rhai am y cysylltiad ag arferion recriwtio moesegol yn y GIG. Disgrifiwyd y gwaith hwn fel rhywbeth a oedd yn "aeddffedu", a bod angen fframwaith gref er mwyn gallu gwneud hyn. Unwaith eto, roedd cyfnod dod allan o'r pandemig yn cael ei weld fel amser da i adolygu ac adnewyddu dull cyffredinol Cymru o fynd ati. Mae'r safbwyntiau

---

<sup>42</sup> Rwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica (2021). [Croeso i Rwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica.](#)

<sup>43</sup> Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2020). [Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: Crynodeb Gweithredol.](#)

<sup>44</sup> Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2021). [Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang.](#)



hyn yn pwysleisio perthnasedd edrych ar fodelau mewn rhannau eraill o'r DU sydd wrthi eisoes yn datblygu'r cysylltiadau hyn.

---

#### 4.6 CRYNODEB

Mae Cymru'n cefnogi nifer o grwpiau sy'n weithredol ym maes iechyd rhyngwladol. Rhai bach yw'r rhan fwyaf ohonynt, a dim ond cyfran fach sy'n bartneriaethau wedi'u seilio ar y GIG. Ceir polisiâu cryf sy'n cefnogi ymgysylltiad cenedlaethol ac ymgysylltiad y GIG mewn gwaith rhyngwladol, llu o gyrff sy'n ymwneud â'r gwaith, a rhai eraill sydd â sgiliau neu rwydweithiau i'w cynnig ond nad ydynt yn ymwneud â'r gwaith hyd yma. Arweinir y gwaith gan nifer o grwpiau gwahanol, ac nid oes un man cyswllt ar gyfer cydlynu. Ceir modelau mewn rhannau eraill o'r DU y gallai Cymru fwrw golwg arnynt i gael syniadau, yn arbennig o ran strwythuro gweithgaredd o fewn y GIG.

## 5. CYLLIDO

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am gronfeydd ODA y DU a ffynonellau cyllid presennol a rhai posib ar gyfer cyrff sy'n weithredol. Mae'r waelodlin hon yn gysylltiedig â chryfderau penodol yng Nghymru a allai fod yn ganolbwynt i brosiectau a gefnogir gan ODA.

### 5.1 CYMORTH DATBLYGU SWYDDOGOL

#### 5.1.1 CEFNDIR

Cymorth llywodraeth sy'n hyrwyddo ac yn targedu datblygiad economaidd a lles gwledydd sy'n datblygu ydy Cymorth Datblygu Swyddogol (ODA).<sup>45</sup> Mae Pwyllgor Cynorthwyo Datblygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn llunio rhestr o wledydd sy'n gymwys i dderbyn ODA bob tair blynedd, ac fe luniwyd y rhestr ddiwethaf yn 2020. Mae'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys yn seiliedig ar incwm y pen fesul gwlad ac mae'r rhestr yn cynnwys yr holl wledydd a ddosberthir fel rhai incwm isel neu ganolig, ac eithrio'r rhai sy'n aelodau o'r G8 neu'r Undeb Ewropeaidd. Gall ODA fod yn ddwyochrog (yn cael ei wario ar wledydd, rhanbarthau neu raglenni penodol) neu'n amlochrog (cyfraniadau tuag at gyllid craidd ar gyfer sefydliadau megis yr WHO a'r Cenhedloedd Unedig). Mae gwariant wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau a nodwyd yn Strategaeth Gymorth 2015 Llywodraeth y DU, ond mae'r blaenoriaethau hyn yn newid.

#### Newidiadau diweddar

Hyd yn ddiweddar, roedd y cyfrifoldeb cyffredinol am datblygu rhyngwladol a phrif wariant yr ODA yn nwylo'r Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DfID), ac roedd Llywodraeth y DU wedi'i hymrwymo'n gyfreithiol i wario 0.7% o Incwm Gwladol Crynswth (GNI) fel ODA. Yn ystod 2020, bu newidiadau sylweddol i'r fframwaith hwn, gan gynnwys uno DfID a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad i greu'r Swyddfa Dramor, Y Gymanwlad a Datblygu (FCDO), a gostyngiad yn y gwariant ODA i 0.5% o GNI, mewn ymateb i'r argyfwng economaidd a sbardunwyd gan bandemig y coronafeirws. Ymhellach, ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Tramor bod fframwaith strategol newydd i gael ei datblygu i ddisodli Strategaeth Gymorth 2015.<sup>46</sup> Nid yw'r fframwaith hwn wedi'i gyhoeddi eto, ond bydd yn canolbwyntio gwariant ODA mewn gwledydd ble mae buddiannau datblygu, diogelwch ac economaidd y Deyrnas Unedig yn alinio – er enghraifft, yn Affrica is-Sahara – ac ar saith "her fyd-eang". Un o'r rhain ydy COVID a diogelwch iechyd byd-eang.

#### Gwariant ODA

Y ffigyrau terfynol diweddaraf sydd ar gael ar gyfer gwariant ODA ydy'r rhai ar gyfer blwyddyn galendr 2019.<sup>47</sup> Gwerth nodi:

- Roedd 57.6% o'r cyllid yn ddwyochrog, h.y., wedi'i ddyrannu i wlad neu ranbarth penodol, llai nag yn 2018. O ran gwledydd, y tair prif dderbynydd oedd Pacistan, Ethiopia ac Afghanistan.
- Affrica dderbyniodd y gyfran fwyaf o ODA dwyochrog (50.6%, yn debyg i 2018), ac wedyn Asia (41.8%).
- Iechyd oedd ail o ran faint o gyllid a dderbyniwyd fesul sector (14%), gyda chronfeydd amlsector yn drydydd (12.9%). O fewn y gyfran hon, sefydliadau ymchwil/gwyddonol amlsector dderbyniodd fwyaf o gyllid.

Roedd tuedd wedi bod dros flynyddoedd diweddar tuag at gael mwy o wariant ODA gan adrannau ac eithrio DfID/FCDO, er bod y duedd honno nawr yn cael ei gwyrddroi. Dangosir dyraniadau ODA adrannol ar gyfer 2021 yn Nhabl

<sup>45</sup> OECD (2020). [Official Development Assistance \(ODA\)](#).

<sup>46</sup> UK Foreign, Commonwealth and Development Office (2020). [Letter from the Foreign Secretary regarding the future of the UK aid budget](#).

<sup>47</sup> Department of International Development (2019). [Statistics on International Development](#).

4.<sup>48</sup> Mae'r cyfanswm yn agos at £10bn, gyda thua 20% yn cael ei wario trwy adrannau ac eithrio'r FCDO. Mae hyn yn ostyngiad o oddeutu traean o gyfanswm gwariant y flwyddyn flaenorol, ac yn ostyngiad tebyg yn y gyfran a werir gan adrannau ac eithrio'r FCDO. Gallai'r cyfanswm ostwng ymhellach, gan ddibynnu ar GNI, ac mae pryderon y gallai'r gyllideb ODA gael ei thorri o ryw 50-70% o gymharu â 2020.

Adran (Llywodraeth y DU)	Dyraniad 21/22 (£m)
Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu	8115
Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol	706
Cronfa Gwrthdaro, Sefydlogrwydd a Diogelwch	337
Technoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	6
Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	92
Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol	207
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	4
Trysorlys Ei Mawrhydi	3
Y Swyddfa Gartref	470
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	3
Arall (yn cynnwys yr Adran Addysg, yr Adran Gwaith a Phensiynau, MoD, gweinyddiaethau datganoledig) <sup>49</sup>	42

**Tabl 4: Dyraniadau ODA adrannol, 2021/22**

### ODA a datganoli

Nid yw datblygu rhyngwladol yn faes sydd wedi'i ddatganoli, ac mae Llywodraeth y DU yn gwario ODA ar ran y gwledydd datganoledig. Fel y nodwyd, mae gan yr Alban gytundeb gyda Llywodraeth y DU sy'n caniatáu iddi ddyrannu a gwario ODA, er budd gwledydd partner, o'i chyllideb ei hun. Nid oes gan Gymru gytundeb o'r fath a rhaid i'w chyllideb gael ei gwario yn bennaf er budd pobl Cymru. Caiff rhaglen Cymru ac Affrica ei chyllido felly ar y sail bod y gweithgaredd hwn o fudd i Gymru.

Mae adrannau ac eithrio'r FCDO yn sicrhau cronfeydd ODA trwy gynllunio prosiectau sy'n gydnaws â blaenoriaethau gwariant ODA a chynnig rhain i Ysgrifennydd Gwladol yr FCDO, trwy eu Hysgrifennydd Gwladol eu hunain. Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) Llywodraeth y DU sy'n arwain ar gysylltiadau rhyngwladol ac iechyd byd-eang ar ran y DU gyfan, ac mae'n dilyn y broses hon ar gyfer prosiectau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae Public Health England (PHE) yn cael mewnbwn sylweddol ac mae nifer o brosiectau'r DHSC a gyllidir gan ODA yn gysylltiedig â Strategaeth Iechyd Fyd-eang PHE. Mae hyn yn deillio yn rhannol o swyddogaethau craidd presennol PHE ac yn rhannol o weithgaredd hanesyddol. Gyda PHE wrthi'n mynd trwy ailstrwythuro sylweddol, gallai eu rôl yn hyn o beth newid.<sup>50</sup> Mae gan Brif Swyddog Meddygol Lloegr drosolwg dros gyllideb ODA y DHSC ac ef yw cynrychiolydd y Deyrnas Unedig ar Fwrdd Gweithredol yr WHO. Caiff ODA ei wario ar iechyd hefyd trwy'r FCDO a chronfeydd amlsector.

Mae gan Gymru gynrychiolaeth ffurfiol yn y broses hon ar y lefelau canlynol:

- Prif Swyddogion Meddygol y pedair gwlad, sy'n cyfarfod yn rheolaidd.

<sup>48</sup> UK Parliament (2021). [Development Update: Statement UIN HCWS735](#).

<sup>49</sup> Nid yw gwariant ODA gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ragfynegi ar wahân ar gyfer 2021, ond yn 2019, roedd yn £2m, neu 0% o'r cyfanswm. Fel y trafodwyd, nid yw hyn hyd yn oed yn bodloni'r diffiniad o ODA mewn gwirionedd.

<sup>50</sup> UK Department of Health and Social Care (2020). [Policy Paper: The future of public health: The National Institute for Health Protection and other public health functions](#).

- Grŵp Iechyd Rhyngwladol y Deyrnas Unedig
- Pwyllgor Iechyd Byd-eang PHE

### 5.1.2 CAEL GAFAEL AR GYLLID ODA

Mae tri llwybr sylfaenol y gall cyrff eu dilyn i gael gafael ar gyllid ODA:

- Ymgeisio am gronfeydd grant a hysbyseb. Yn aml, caiff rhain eu rheoli gan drydydd partion, er enghraifft y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR). Rhaid i brosiectau'r rhai sy'n ymgeisio fodloni meini prawf penodol yr 'alwad' grant a chystadlu yn erbyn rhai eraill er mwyn derbyn cyllid. Mae adran 4.1.3 yn rhoi manylion y cronfeydd perthnasol cyfredol.
- Cyflwyno cynigion am gontractau i ddarparu gwasanaethau – megis gweinyddu cronfeydd grant, fel uchod. Caiff y cyfleoedd hyn eu hysbysebu trwy Borth Partneriaid Cyflenwi'r FCDO, ac felly hefyd y cronfeydd grant eu hunain.<sup>51</sup>
- Datblygu prosiectau y bydd adrannau llywodraeth yn eu cynnwys yn eu cyllidebau ODA, fel y disgrifir uchod. Er mai trwy adrannau llywodraeth y DU y gwneir hyn fel arfer, gallai llywodraeth Cymru ddilyn y broses hon hefyd. Byddai angen i brosiectau fod yn gydnaws â blaenoriaethau'r DU ar wariant ODA ac iechyd byd-eang, ac er mwyn llwyddo, byddai rhaid cael perthasoedd gweithio cryf gyda'r DHSC, yr FCDO a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru.

Mae monitro'r cyfleoedd sydd ar gael, datblygu ceisiadau a phrosiectau, a datblygu'r perthasoedd sydd eu hangen er mwyn llwyddo yn cymryd cryn amser ac ymdrech. Bydd rhaid i gyrff sy'n bwriadu mynd ar drywydd y cyfleoedd hyn neilltuo amser staff ar gyfer y dasg.

### 5.1.3 CRONFEYDD ODA PRESENNOL SY'N GYSYLLTIEDIG AG IECHYD

Yn sgil y newidiadau mawr diweddar a ddisgrifiwyd uchod, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (mis Mawrth 2021), mae'r rhan fwyaf o gronfeydd ODA posib ar gyfer gweithgareddau iechyd perthnasol yn dod i ben; ychydig iawn sy'n agored i dderbyn ceisiadau. Gyda chyllideb llywodraeth y DU wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar, mae'n debyg y bydd cronfeydd newydd yn cael eu lansio'n fuan; yn y cyfamser, mae'r wybodaeth a roddir yma yn seiliedig ar waelodlin yr amgylchedd cyllido presennol. Mae'r newidiadau hyn yn cadarnhau'r angen i ddatblygu perthasoedd eang a chryf gydag adrannau llywodraeth y DU a chyrrff gofal iechyd, er mwyn gallu addasu ac alinio gyda blaenoriaethau cenedlaethol sy'n newid.

#### Cronfeydd a weinyddir gan yr FCDO

Defnyddiwyd 'fund finder' yr FCDO i ganfod cronfeydd perthnasol.<sup>52</sup> Maent yn cynnwys y rhai sy'n seiliedig ar iechyd neu ymchwil (gan gynnwys WASH ac arloesi) ac sy'n agored i gyrff anllwywodraethol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys mudiadau bach, a llywodraeth leol. Dim ond tri a ganfuwyd, gydag 11 arall wedi'u heithrio oherwydd eu bod y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn, neu wedi hen gau. Y cronfeydd perthnasol ydy:

- **UK Aid Direct.**<sup>53</sup> Mae hon wedi'i hanelu'n uniongyrchol at MCSau bach a chanolig sy'n gweithio i gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy mewn gwledydd partner penodol sy'n gymwys. O fewn y gronfa hon, ceir cronfeydd grant ar wahân sydd â meini prawf cymhwysra mwy penodol. Yr unig gronfa sydd ar agor ar hyn o bryd ydy'r Gronfa Her Elusennau Bach (SCCF), y mae rhai cyrff Cymreig wedi gwneud ceisiadau llwyddiannus iddi. Mae ceisiadau newydd i'r gronfa hon yn cau ar 25<sup>ain</sup> Mawrth 2021.
- **UK Aid Match.**<sup>54</sup> Mae'r gronfa hon yn darparu grantiau i MCSau a leolir yn y Deyrnas Unedig ar gyfer prosiectau lleihau tlodi, trwy gyfraniadau arian cyfatebol i'w mudiadau. Rhaid bod disgwyliad realistig y gellir codi o leiaf

<sup>51</sup> UK Foreign, Commonwealth and Development Office (2021). [Procurement at FCDO](#).

<sup>52</sup> UK Foreign, Commonwealth and Development Office (2021). [International development funding](#).

<sup>53</sup> UK Aid Direct (2021). [UK Aid Direct](#).

<sup>54</sup> UK Aid Match (2021). [UK Aid Match](#).

£100,000 trwy gyfraniadau o fewn tri mis ar y mwyaf; ar hyn o bryd, mae hynny'n debygol o eithrio llawer o'r cyrff iechyd Cymreig a nodwyd. Mae meini prawf pellach ar gyfer cymhwysra prosiectau. Nid yw'r gronfa hon yn agored i dderbyn ceisiadau ar hyn o bryd, ond yn hanesyddol, mae wedi cael ei hailadrodd.

- **Cronfa Arloesi Byd-eang (Global Innovation Fund).**<sup>55</sup> Mae'r gronfa hon ar agor yn barhaus i dderbyn ceisiadau, a dim ond cyfran o'i chyllideb a ddaw o ODA. Ei nod yw annog gweithredu a chynyddu graddfa datblygiadau arloesol er mwyn gwella bywydau'r rhai sy'n byw ar lai na \$5 y dydd. Mae'n agored i unrhyw gorff a gallai gweithgaredd sy'n gysylltiedig ag iechyd fod yn gymwys, ond gallai fod yn fwy perthnasol i'r sector gorfforaethol.

Mae'r FCDO yn cefnogi nifer o brosiectau mawr sy'n gysylltiedig ag iechyd hefyd – prosiectau a weithredir gan gyrff anllwydraethol a chwmnïau mawr. Ymhlith yr enghreifftiau, sy'n dangos meysydd sydd o ddiddordeb ac yn ffocws i ODA y DU, mae:

- Lleihau trosglwyddiad a marwolaethau yn sgil HIV/AIDS, y ddarfodedigaeth a malaria.
- Cefnogi ymdrechion i ddileu polio.
- Iechyd rhyw menywod, gan gynnwys cynllunio teulu a chyflenwadau offer atal cenhedlu.
- Datblygu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol.
- Lleihau marwolaethau ac effeithiau yn sgil afiechydon trofannol sydd wedi'u hesgeuluso.
- Gwella iechyd mamau a phlant.
- Rhaglenni maeth a WASH.

Mae'r rhain yn aml yn canolbwyntio ar wledydd penodol, sy'n dangos pwysigrwydd presenoldeb neu gysylltiadau mewn gwlad o ran cael cyfleoedd i ddarparu prosiectau.

### **Cronfeydd a weinyddir gan y DHSC**

Mae cyfleuster Orlhain Datblygu'r FCDO<sup>56</sup> yn rhestru 42 o gronfeydd neu rhaglenni sy'n cael eu cynnal o gyllideb y DHSC. O'r rhain, mae 18 yn ymwneud yn gyfan gwbl ag ymchwil (gan gynnwys i frechlynnau), a thair yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Mae pump yn gyfraniadau uniongyrchol tuag at waith canolfannau sy'n bodoli eisoes. Caiff nifer eu gweinyddu gan gyrff eraill, megis y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR); mae THET yn ddarparwr ar gyfer dwy raglen. Rhestrir y cronfeydd a'r prosiectau sydd fwyaf perthnasol i'r adroddiad hwn isod. Nodwch, gan fod llawer o'r rhain wedi cau neu yn cau, cânt eu cyflwyno er mwyn rhoi syniad o'r mathau o brosiectau sydd wedi eu cefnogi gan ODA y DU.

- **Cronfa Fleming.**<sup>57</sup> Mae hon yn rhaglen £265 miliwn a ddechreuodd yn 2015 sy'n rhoi cymorth i wledydd ar draws Affrica ac Asia i fynd i'r afael ag ymwrthedd gwrthficrobaidd (AMR). Mae'r prosiectau'n cynnwys rhai ymarferol/clinigol a phrosiectau ymchwil, gan gynnwys rhai sy'n canolbwyntio ar amaethyddiaeth. Ceir cymrodoriaethau i staff mewn labordai a fferyllfeydd, gyda'r nod o gynyddu eu capasiti mewn GICh. Mae rhaglen Partneriaethau'r Gymanwlad ar gyfer Stiwardiaeth Wrthficrobaidd THET yn un prosiect o'r fath.<sup>58</sup> Nid oes unrhyw gyfleoedd ar hyn o bryd sy'n agored i dderbyn ceisiadau, a bydd nifer o brosiectau gweithredol yn dod i ben yn ystod y mis hwn, er bod rhai wedi cael gwybod am estyniadau byr i'w cyllid. Ar sail hynny a'r blaenoriaethau ODA ar gyfer y dyfodol sy'n wybyddus, mae'n ymddangos yn bosib y bydd y gronfa hon yn cael ei hailadrodd.

<sup>55</sup> Global Innovation Fund (2021). [Global Innovation Fund – Home.](#)

<sup>56</sup> UK Foreign, Commonwealth and Development Office. (2021). [Development Tracker.](#)

<sup>57</sup> The Fleming Fund (2021). [The Fleming Fund.](#)

<sup>58</sup> THET (2021). [Our Work: CwPAMS.](#)

- **Prosiect Cryfhau Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol (IHR).**<sup>59</sup> Mae'r prosiect hwn, sydd wedi'i gyllido ag £16m dros bum mlynedd yn cael ei weithredu gan PHE a'i nod ydy gwella diogelwch iechyd byd-eang trwy wella cydymffurfiaeth â'r IHR. Mae'r rheoliadau hynny'n ffurfio fframwaith sy'n gosod rhwymedigaethau mewn cyfraith mewn 196 o wledydd, gan ddiffinio hawliau a chyfrifoldebau gwledydd wrth ymdrin â digwyddiadau iechyd y cyhoedd a allai groesi ffiniau. Dechreuwyd gweithredu'r prosiect hwn yn 2016 ac mae'n dod i ben y mis hwn.
- **Diagnosteg, Prostheteg ac Orthoteg i Fynd i'r Afael â Heriau Iechyd mewn Gwledydd sy'n Datblygu.**<sup>60</sup> Cronfa £8m dros bedair blynedd, sy'n cefnogi arloesi darbodus ar gyfer technolegau gofal iechyd. Roedd y grantiau hyn wedi'u hanelu at grwpiau sy'n datblygu'r gwaith hwn mewn meysydd blaenoriaeth penodol a allai chwyldroi llwybrau gofal mewn GIICh. Nid yw'r rhaglen yn agored i dderbyn ceisiadau bellach a bydd y ddarpariaeth yn dod i ben y mis hwn.
- **Tîm Cefnogaeth Gyflym Iechyd y Cyhoedd - Ymchwilio ac ymateb yn gyflym.**<sup>61</sup> Mae'r gwaith hwn yn derbyn cyllid o £8m dros bum mlynedd, i gefnogi tîm o weithwyr iechyd y cyhoedd y gellir eu hanfon i helpu GIICh i reoli brigiadau o achosion o afiechydon. Mae'n cael ei gynnal gan PHA ac Ysgol Iechyd a Meddygaeth Trofannol Llundain, ac mae'n cynnwys hyfforddi a chynnal carfan o staff y gellir eu hanfon. Mae'r prosiect presennol yn dod i ben yn ystod y mis hwn, ond mae'n debygol y bydd yn cael ei ailadrodd, ar sail blaenoriaethau ODA sy'n wybyddus, a gall gynnwys staff o unrhyw le yn y Deyrnas Unedig.

### Cronfeydd adrannol eraill

Yr Adran dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) sy'n goruchwyllo'r Gronfa Ymchwil i Heriau Byd-eang (GCRF) £1.5bn.<sup>62</sup> Mae'r gronfa hon yn anelu at gael yr effaith fwyaf posib o ymchwil ac arloesi er mwyn gwella bywydau a chyfleoedd mewn GIICh. Mae'r ymchwil a gefnogir yn gysylltiedig â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ac mae'n eang ei gwmpas, ond mae'n cynnwys nifer o brosiectau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae'r gronfa dan fygythiad a bydd bron yn sicr yn gostwng o ganlyniad i doriadau i'r gyllideb ODA.<sup>63</sup>

### Cronfeydd traws-adrannol

Mae'r Gronfa Ffyniant yn bortffolio £1.2bn o raglenni dros saith mlynedd, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar wledydd incwm canolig fel China, India a Mecsico.<sup>64</sup> Mae'n gweithio'n bennaf trwy ddylanwadu ar yr amgylchedd busnes. Mae y tu hwnt i gwmpas yr adroddiad hwn, ond caiff ei chynnwys yma er mwyn rhoi darlun cyflawn gan mai un o'r rhaglenni ydy Gwell Iechyd, sy'n weithredol yn ne-ddwyrain Asia a De Affrica. Mae rhywfaint o weithgaredd nad yw'n gysylltiedig ag iechyd yn Affrica is-Sahara. Bydd hynny'n cael ei ystyried ymhellach yn yr adroddiad ehangach sydd i ddilyn.

#### 5.1.4 TUEDDIADAU YN Y DYFODOL MEWN CYLLID ODA

Yn dilyn y newid dramatig i raddfa a strwythur cronfeydd ODA y DU, a amlinellwyd uchod, mae ansicrwydd mawr yn parhau ynghylch gwariant yn y dyfodol. Bydd yn gostwng yn sylweddol, o leiaf yn y tymor byr. Er bod heriau cyfreithiol ar y gweill i'r toriad o 0.7% i 0.5% o GNI sy'n cael ei ddyrannu i ODA, a bod y llywodraeth wedi datgan mai gostyngiad dros dro ydy hwn, mae disgwyl y bydd yn cymryd sawl blwyddyn i GNI ddychwelyd i'r un lefelau ag yr oedd cyn y pandemig. Fel y trafodwyd, mae fframwaith newydd ar gyfer gwariant ODA, gyda blaenoriaethau gwahanol ac heb ymrwymiad amlwg i ganolbwyntio ar leihau tldi, wrthi'n cael ei ddatblygu. Mae'r FCDO wedi cyfyngu ei thrafodaethau â'r gymuned datblygu rhyngwladol, sy'n parhau i fod yn y tywyllwch i raddau helaeth o safbwynt dyfodol eu gwaith.

<sup>59</sup> UK Department of Health and Social Care (2021). [Development Tracker: International Health Regulations \(IHR\) Strengthening Project.](#)

<sup>60</sup> UK Department of Health and Social Care (2021). [Development Tracker: Diagnostics, Prosthetics and Orthotics to Tackle Health Challenges in Developing Countries.](#)

<sup>61</sup> London School of Hygiene & Tropical Medicine (2021). [UK Public Health Rapid Support Team \(UK-PHRST\).](#)

<sup>62</sup> UK Research and Innovation (2020). [Global Challenges Research Fund.](#)

<sup>63</sup> UK Research and Innovation (2021). [UKRI Official Development Assistance letter 11 March 2021.](#)

<sup>64</sup> UK Government (2020). [Guidance: Cross-Government Prosperity Fund.](#)

Fodd bynnag, mae rhai rhagolygon wedi'u gwneud ynglŷn â chyfeiriad:

- Bydd iechyd yn parhau'n flaenoriaeth. Mae hyn yn dilyn yn naturiol o'r pandemig ac mae'n cael ei ddatgan yn amlwg yng nghyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Rhagfyr. Manylion yr ail her fyd-eang y bydd ODA yn canolbwyntio arni ydy: "Brwydro yn erbyn Covid-19 a chefnogi poblogaethau iachach a mwy cydnerth mewn gwledydd sy'n datblygu. Byddwn yn gwneud hyn trwy fuddsoddiadau mawr mewn mentrau byd-eang megis cynghrair brechlynnau GAVI, cyllid craidd i Sefydliad Iechyd y Byd, a thrwy gefnogi systemau iechyd bregus mewn gwledydd sy'n datblygu."
- Bydd ffocws ar frechlynnau ac ar fesurau i reoli brigiadau o afiechydon heintus. Byddai hyn yn gydnaws â chyllido blaenorol trwy Rwydwaith Brechlynnau'r DU, ar AMR ac ar strategaethau iechyd y cyhoedd, gyda brys newydd wedi'i gyflwyno oherwydd y pandemig.
- Mae'r berthynas rhwng argyfwng yr hinsawdd ac iechyd yn debygol o gael ei thargedu, yn rhannol oherwydd bod y Deyrnas Unedig yn croesawu Cynhadledd Newid Hinsawdd y Cenedloedd Unedig, COP26, ym mis Tachwedd.
- Mae rhaglenni mewn rhai gwledydd yn debygol o gau. Awgrymwyd hynny yn y cyhoeddiad ym mis Rhagfyr, a ddatganodd y byddai ffocws ar wledydd ble mae buddiannau allweddol y Deyrnas Unedig yn cyd-daro. Byddai cyfran fwy o'r cyllid, wedyn yn dod yn amlochrog.
- Mae'n debygol y bydd y duedd i 'ddychwelyd' gwariant i'r FCDO o adrannau eraill Llywodraeth y DU yn parhau. Mae'n debygol y bydd yr FCDO yn gwario mwy trwy lysgenadaethau gwledydd, oherwydd yr ystyrir eu bod yn gallu blaenoriaethu a chydlynu gwaith yn well.

Ar yr un pryd, yn dilyn y rhaniadau sydd wedi'u hysgogi gan Brexit a phandemig y coronafeirws, mae'n bosib iawn y bydd Llywodraeth y DU am ystyried dyrannu cyllid mewn ffyrdd sy'n cefnogi undeb y Deyrnas Unedig. Gallai hynny roi mantais newydd i Gymru wrth geisio ODA ar gyfer prosiectau allweddol.

### 5.1.5 SUT MAE CRYFDERAU CYMRU'N CYDWEDDU Â CHRONFEYDD ODA POSIB

Yn seiliedig ar yr uchod, mae gan Gymru nifer o gryfderau sy'n ymddangos fel petaent yn gydnaws â gwariant a ffocws ODA posib mewn perthynas ag iechyd (Tabl 5).

Maes	Cryfderau Allweddol	Corff/Cyrff Allweddol
Gofal iechyd ar sail gwerthoedd		Sefydliad Bevan; Hwb Gwyddorau Bywyd; Prifysgol Abertawe
Brigiadau afiechydon ac ymwrthedd gwrthficrobaidd	Dilyniannodi genomegol	Uned Genomeg Pathogenau (ICC); Partneriaeth Genomeg Cymru
Arloesi	Gwasanaethau digidol	GGGC; Sefydliad Bevan; Hwb Gwyddorau Bywyd
Ymchwil Iechyd y Cyhoedd	Iechyd a lles	ICC; NCPHWR; Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Addysg Glinigol	Dysgu cyfunol/o bell	AaGIC; Byrddau Iechyd; Prifysgolion
Diogelu Iechyd	Paratoi ac ymateb i bandemig; rhaglenni brechu; rhaglenni sgrinio	ICC
Cysylltiau presennol â gwledydd	Somaliland, Lesotho, Uganda	Llawer, yn cynnwys poblogaethau diaspora Cymru, MCSau allweddol a dolenni sy'n gysylltiedig â'r GIG

**Tabl 5: Sut mae cryfderau gofal iechyd Cymru'n cydweddu â chyllid ODA posib.**

O'u plith, gallai gweithgaredd ICC fod yn arbennig o bwysig. Yn hanesyddol, mae PHE wedi chwarae rhan fawr yn datblygu strategaeth fyd-eang a rhaglenni ODA y DHSC. Fodd bynnag, ym mis Awst 2020, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Lloegr y byddai PHE yn cael ei ddisodli â Sefydliad Diogelu Iechyd Cenedlaethol ar gyfer y DU

gyfan, a fydd yn ymgorffori corff Profi ac Orlhain 'GIG' Lloegr.<sup>65</sup> Bydd ei arweinyddiaeth yn newid, ac mae'n parhau'n aneglur i ba raddau, neu sut, y bydd yn ymgorffori holl swyddogaethau presennol PHE. Yn y cyfamser, mae ymateb mwy cydlynus Cymru i'r pandemig, dan arweiniad ICC ac wedi'i ddarparu'n gost-efeithiol trwy gyrff cyhoeddus, wedi denu sylw yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Gall fod bwlch yn ymddangos y gall ICC gamu i mewn iddo, o ran cyfarwyddo a darparu blaenoriaethau iechyd byd-eang.

---

## 5.2 CYLLID AC EITHRIO ODA AR GYFER GWAITH IECHYD RHYNGWLADOL CYMRU

Mae nifer o ffynonellau cyllid sylweddol eraill ac eithrio ODA y gallai gyrff iechyd rhyngwladol Cymru gael gafael arnynt:

- Cronfa'r Loteri Fawr (yn dibynnu ar ba raglenni cyllido penodol sydd ar agor).
- Comic Relief (ar agor i gyrff o faint canolig sy'n weithredol mewn gwledydd penodol yn unig).
- Cronfeydd cenedlaethol/rhyngwladol eraill, e.e., Sefydliad y Gymanwlad, yr Undeb Ewropeaidd, USAID.
- Ymddiriedolaethau a sefydliadau mawr, e.e., Wellcome Trust, The Bill and Melinda Gates Foundation.
- Nawdd corfforaethol.

Ar gyfer llawer o'r rhain, byddai mantais, neu reidrwydd, i ymuno â chyrrff eraill i ffurfio consortiwm i ymgeisio am gyllid. Er enghraifft, wedi i ni adael yr Undeb Ewropeaidd, fyddai corff o'r Deyrnas Unedig ddim yn gallu "arwain" cais am gyllid yr UE, ond gallai elwa o hyd trwy bartneru â chorff sydd wedi'i leoli mewn gwlad dderbyn gymwys, neu yn un o aelod-wladwriaethau'r UE. Mewn modd tebyg, mae llawer o gyllid y Wellcome Trust yn canolbwyntio ar ymchwil: efallai bod gan MCS gysylltiadau o fewn gwlad i gynllunio neu hwyluso ymchwil, ond dim o'r gallu i ymgymryd â'r ymchwil. Yn yr achos hwn, gallai bartneru gyda phrifysgol sy'n gweithio yn y maes perthnasol, gyda'r ddau'n elwa o dderbyn cyllid a mwy o effaith yn y wlad bartner. Gallai partneriaethau o'r fath osod grwpiau llai ar lwybr tuag at ddatblygu capasiti a hygredded i reoli cronfeydd mwy.

---

## 5.3 MEWNWELEDIAD: NODWEDDION CRONFEYDD A PHROSES AU YMGEISIO

Dyma'r bedwaredd brif thema a drafodwyd gan randdeiliaid, yn bennaf yn nhermau'r rhwystrau rhag cael cyllid grant. Mae'n werth nodi nad oedd dau o'r ugain o ymatebwyr i'r arolwg cyllido (10%) eisiau cael gafael ar gyllid ychwanegol. Roedd un o'r rhain yn fodlon gyda'u model ac yn teimlo na fyddai ymgeisio am grantiau yn ddefnydd da o amser cyfyngedig. Cyfeiriodd y llall at natur "llewyrch a llymder" cyllido trwy grantiau a'r risgiau i gyllid prosiectau hir-dymor. Mae'r ddau gorff yma yn dibynnu'n bennaf ar gyfraniadau uniongyrchol.

### Meini prawf grantiau

Meini prawf penodol cronfeydd grantiau a'u prosesau ymgeisio oedd y rhwystrau rhag cael gafael ar gyllid a drafodwyd fwyaf. Gwelwyd weithiau ei bod yn anodd, neu ddim yn iawn, yn nhermau'r blaenoriaethau oedd wedi'u nodi gan bartneriaid, i addasu prosiectau i'w gwneud yn gydnaws â nodau cul rhai cronfeydd. Roedd canfyddiad yn aml bod y cronfeydd mwyaf wedi'u hanelu at gyrff nad ydynt yn gyffredin yng Nghymru, megis Ymddiriedolaethau GIG mawr sydd ynghlwm â phrifysgolion, ble mae gan lawer o aelodau staff amser wedi'i neilltuo ar gyfer gwaith academiaidd ac ymchwil, a'r arbenigedd sydd ynghlwm â hynny. Mae hyn yn gorgyffwrdd â'r thema uchod, ynglŷn â'r angen am amser a sgiliau i allu cwblhau ceisiadau am grantiau'n llwyddiannus.

### Sgiliau a phrofiad

Mae'r rhai a gyfwelwyd a'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn gweld bod lefel y sgiliau, y ddealltwriaeth a'r amser sydd eu hangen i ysgrifennu ceisiadau am grantiau yn rhwystr. Gwnaeth yr ymatebwyr i'r arolwg cyllido 10 sylw yn dweud y

---

<sup>65</sup> UK Department of Health and Social Care (2020). Policy paper: [The future of public health](#).



byddai hyfforddiant, canllawiau neu gymorth gyda chwblhau ffurflenni cais yn hwyluso llwyddiant. Mewn cyfweiliadau, soniodd rhai ymgeiswyr llwyddiannus am gyflogi rhywun yn benodol i gwblhau'r ffurflen gais. Cyfeiriodd un ymgeisydd a oedd wedi cael llwyddiant cyson ac un ymgeisydd aflwyddiannus at effaith ceisiadau aflwyddiannus: gall mudiad bach sy'n ymroi llawer o'i gapasiti i weithio ar un cais mawr gael ei ddigalonni'n ddifrifol os bydd y cais yn methu, a gallai hynny ei atal rhag ymgeisio eto.

Er bod hyn, o bosib, yn ddadl arall dros fanteision ceisiadau ar y cyd o ran datblygu profiad a hyder, roedd teimladau cymysg ynghylch manteision ffurfio consortia. Yn y cyfweiliadau a'r arolwg ar-lein, safbwyntiau cadarnhaol oedd fwyaf amlwg: Byddai 15 (83%) o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd eisiau cael gafael ar fwy o gyllid grant yn ystyried hynny. Soniwyd am y potensial y gellid canfod elfennau cydweddus rhwng grwpiau a dyrannu tasgau yn unol â sgiliau presennol. Roedd gan rai eraill amheuan, gan weld perygl y gallai gwahanol brosiectau gael eu gwasgu i mewn i gynnig ar y cyd nad oedd yn ffitio'n dda. Roedd un rhanddeiliad diaspora wedi cael profiad o gael eu "defnyddio er mwyn sioe" i alluogi corff mawr i fodloni meini prawf grant.

O safbwynt datblygu sgiliau, mae HCA<sup>66</sup> a THET<sup>67</sup> ill dau wedi cyhoeddi rhaglenni datblygu capasiti i MCSau yn ddiweddar. Bydd y rhaglenni hyn yn cynnwys asesiadau unigol o anghenion o ran meysydd i'w datblygu a chymorth wedi'i deilwra, gan gynnwys adnoddau ar-lein, gweithdai a mentora.

### **Daearyddiaeth a rhwydwaith**

Cafodd yr angen i rwydweithio er mwyn cael cyllid grant ei grybwyll yn fynych, yn enwedig gan MCSau. Mae'n farn gyffredin bod ceisiadau'n fwy tebygol o lwyddo pan "mae'ch wyneb yn gyfarwydd". Soniwyd am ddaearyddiaeth ochr yn ochr â hyn, fel hwylusydd ac fel rhwystr. Yng Nghymru, mae maint gweddol fach y gymuned a'r digwyddiadau niferus yn hwyluso rhwydweithio, a gwelir bod unigolion allweddol yn Llywodraeth Cymru yn hygyrch. Gwelir hyn fel rhywbeth sydd o fudd i'r gwaith yn gyffredinol, yn ogystal ag yn hwyluso mynediad at gyllid grant Llywodraeth Cymru. Roedd llawer o ymateb cadarnhaol i gynllun grantiau Cymru ac Affrica: ei symlrwydd cymharol, dosbarthiad a ymddangosa'i'n "deg" ar draws y wlad, a'i hyblygrwydd (e.e., ailddyrrannu cyllid ar gyfer prosiectau yr oedd pandemig y coronafeirws wedi tarfu arnynt).

Fodd bynnag, y gwrthwyneb sy'n wir ynglŷn â mynediad at gronfeydd mwy gan gyrff sydd wedi'u lleoli yn Lloegr, gan gynnwys ODA Llywodraeth y DU. Yn y cyswllt hwn, mae canfyddiad cyffredinol bod cyrff Cymreig yn cael eu heithrio oherwydd pellter a rhwydwaith, gyda grantiau'n cael eu dyfarnu'n bennaf i gyrff sydd wedi'u lleoli yn ne-ddwyrain Lloegr. Awgrymodd rhai bod diffyg diddordeb mewn cefnogi ceisiadau a oedd "bron yn ddigon da" ac y gellid eu gwella, ond, yn hytrach, bod "yr un hen wynebau" yn cael gwobrwyo'n rheolaidd. Cyflwynwyd safbwynt groes i hyn gan ddau ymgeisydd ODA llwyddiannus, a deimlai fod ymgais fwriadol wedi bod i ddsbarthu dyfarniadau yn ddaearyddol a bod cymorth wedi'i ddarparu.


Mae data o ddyfarniadau grantiau THET dros nifer o flynyddoedd yn gosod cyd-destun i'r canfyddiadau hyn. Rhoddir crynodeb o leoliadau ymgeiswyr llwyddiannus (cyfanswm o 317) yn Ffigur 3 ac mae'n dangos dosbarthiad daearyddol arwyddocaol. Mae cyrff yng Nghymru yn derbyn 3% o'r grantiau o gymharu â 5% o boblogaeth y Deyrnas Unedig. Mae'n wir bod y gyfran a ddyfarnwyd i gyrff sydd wedi'u lleoli yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr, ac eithrio cymdeithasau proffesiynol fel Colegau Brenhinol meddygol, yn uwch na'u cyfran o boblogaeth y Deyrnas Unedig (26% v 15%). Fodd bynnag, mae gogledd-orllewin a de-orllewin Lloegr hefyd yn derbyn mwy o grantiau nag y gellid ei ddisgwyl yn ôl poblogaeth (10% grantiau v 6% poblogaeth i'r cyntaf a 7% v 5% i'r ail). O ran maint cyrff sy'n derbyn, mae cymdeithasau proffesiynol yn derbyn 31% o'r grantiau, ac mae sefydliadau yn Rhydychen a Chaergrawnt yn

---

<sup>66</sup> Hub Cymru Africa (2021). [Cyfnerthydd gan Hub Cymru Africa.](#)

<sup>67</sup> THET (2021). [Health Partnership Capacity Development Programme.](#)

derbyn 7% o gymharu â'u cyfran o boblogaeth y DU sydd oddeutu 2%. Mae hyn fel petai'n cefnogi'r canfyddiad bod cyrff mwy yn fwy llwyddiannus. Er y gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r "ffafriaeth" a ganfyddir gan rai rhanddeiliaid, mae'n bosib mai adlewyrchu lefel uwch o brofiad a chapasiti sefydliadau mwy y mae, ac fe gydnabuwyd hynny i'r un graddau yn y trafodaethau gyda rhanddeiliaid.



**Ffigwr 3: Lleoliad daearyddol derbynwyr grantiau THET (cyfanswm o 317)**

Felly, mewn gwirionedd, mae'r data hwn yn cefnogi'r syniad y gallai cyrff llai elwa o bartneru gyda sefydliadau mwy er mwyn cael mynediad at Gronfeydd mwy. Yn achos cyllid ODA uniongyrchol, caiff derbynwyr eu monitro a'u "graddio" gan y corff dyfarnu; mae graddau uchel yn nodweddion sy'n golygu bod ceisiadau yn y dyfodol yn fwy tebygol o lwyddo. Felly, gall cyrff llai gryfhau eu safle ar gyfer ceisiadau annibynnol yn y dyfodol trwy gynnig mewn consortia i ddechrau.

**Canfod cronfeydd addas**

Yn olaf, dywedodd naw o'r ymatebwyr i'r arolwg cyllido (50% o'r rhai sydd eisiau cael gafael ar fwy o gyllid grant) y byddai cymorth i ganfod ffynonellau cyllid addas yn ddefnyddiol. Mae HCA eisoes yn cywain y wybodaeth hon mewn perthynas â'r holl gyllid sydd ar gael, ond roedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol petai'n cael ei rhannu'n categorïau fel y gallent adnabod cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag iechyd yn rhwydd.

## 6. CASGLIADAU

I wlad fach, mae faint o waith iechyd rhyngwladol y mae Cymru'n ei gefnogi yn aruthrol: mae'r 38 corff sy'n weithredol yn dystiolaeth o hynny, hyd yn oed o fewn meini prawf cyfyngedig yr adolygiad hwn. Mae'r gwaith hwn yn cael cefnogaeth ar lefel uchel, gan gynnwys deddfwriaeth a pholisi llywodraeth, yn ogystal ag ymrwymadau arfer da yn y GIG. Serch hynny, mae'r adolygiad hwn wedi cadarnhau bod mwyafrif y cyrff sy'n weithredol yn rhai bach ac, o ystyried ei faint, cymharol ychydig o'r rhain sy'n cael cefnogaeth gan y GIG. Mae'r wybodaeth a amlinellwyd uchod yn ein cyfeirio at gasgliadau amlwg iawn a fydd yn helpu i gyfarwyddo ymdrechion tuag at gryfhau'r gwaith hwn.

### 6.1 BYDD GWAITH IECHYD RHYNGWLADOL YN ELWA O WELL CYDLYNU.

Cafodd yr angen am well cydlynu ei gydnabod yn fframwaith 2012 "Iechyd yng Nghymru a Thu Hwnt i'w Ffiniau" a gweithredwyd ar hynny trwy sefydlu'r IHCC. Ond nid yw'r IHCC yn cael ei chyllido bellach ac nid yw'n cyflawni ei swyddogaethau cydlynu yn llawn mwyach. Mae HCA yn ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith, megis coladu a hyrwyddo cyfleoedd cyllido a chynnal digwyddiadau hyfforddi, ond nid oes ganddo gysylltiadau da gyda'r GIG na sefydliadau academiaidd. Mae RhCICA yn darparu'r cysylltiad gyda'r GIG, ond nid oes ganddo staff cefnogi neilltuedig o fewn HCA, a rhai unigol ac ad-hoc ydy ei gysylltiadau ag academia. Mae'r adroddiad hwn wedi adnabod nifer o gyrff eraill sydd â'r potensial i gyfrannu, ond nad ydynt yn weithredol hyd yn hyn. Nid oes unrhyw fan sy'n dod â'r holl gyrff hyn sydd â diddordeb penodol mewn gwaith iechyd rhyngwladol ynghyd, a'r canlyniad ydy bod cyfleoedd i gydweithio'n cael eu colli, ynghyd â'r amodau ar gyfer creu prosiectau sy'n cael effaith ar raddfa fawr. Mae angen man cydlynu canolog ar gyfer gwaith iechyd rhyngwladol yng Nghymru.

### 6.2 MAE ANGEN I GYRFF IECHYD RHYNGWLADOL DDATBLYGU ER MWYN CAEL GAFAEL AR WELL CYLLIDO.

Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff sy'n weithredol yn rhai bach ac wedi'u seilio'n gyfan gwbl ar ymdrechion gwirfoddolwyr. Nid oes ganddynt gapasiti, o ran amser na sgiliau, i ddatblygu prosiectau a fyddai'n denu cronfeydd grantiau mawr, gan gynnwys ODA, nac i gwblhau'r prosesau ymgeisio hyn. Byddai'r rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn dymuno cael mynediad at well cyllido. Petai'r cyllid yn gwella, mae'n debyg y byddai'r cyrff yn datblygu, gan greu "cylich rhinweddol" o dwf. Mae rhai camau syml a fyddai'n helpu gyda hyn. Yn gyntaf, byddai datblygu cynllun grantiau Cymru ac Affrica i gynnig grantiau o faint canolig (e.e., £50,000) yn cynnig cam i fyny i gyrff. Yn ail, byddai cydweithio gyda grwpiau bach eraill ar brosiectau cydweddus, neu gyda chyrff mwy gan gynnwys prifysgolion, yn caniatáu i sgiliau a chapasiti gael eu rhannu wrth gyflwyno ceisiadau consortia. Bydd gwell cydlynu fel uchod, gan ddod â chyrff perthnasol ynghyd, yn allweddol i hyn. Mae hyd yn oed y cysylltiadau a wnaed o ganlyniad i'r adolygiad hwn wedi bod o gymorth: mae corff mawr sydd wedi'i leoli mewn prifysgol a grŵp diaspora bach wedi dod ynghyd i gynllunio prosiect ac i wneud cais am grant mawr.

### 6.3 MAE GAN GYMRU OPSIYNAU AR GYFER CYNYDDU CYLLID ODA, OND DYLAI EDRYCH MEWN MANNAU ERAILL HEFYD.

Mae gan ein gwlad gryfderau aruthrol ym maes iechyd, yn arbennig yn sgil pandemig y coronafeirws a chyda phryder cynyddol am yr hinsawdd. Mae diogelu iechyd, dilyniannodi genomegol ac arloesi digidol yn allweddol yma, ac mae'n amser da i ICC ddatblygu presenoldeb rhyngwladol cryf. Mae cyrff sy'n canolbwyntio ar ofal iechyd ar sail gwerthoedd ac arloesi mewn sefyllfa ddelfrydol i gyfrannu at ddatblygu nodau eglur a fyddai er budd i'r ddwy ochr o bartneriaethau gyda GIICh. Mae'n bosib iawn y bydd y meysydd hyn yn cydweddu â blaenoriaethau newydd y Deyrnas Unedig ar gyfer gwariant ODA, a gallai sylw Llywodraeth y DU ar yr undeb roi Cymru mewn sefyllfa gryfach. Mae angen dod â chyrff sydd â'r weledigaeth a'r capasiti i gynllunio prosiectau sylweddol yn y meysydd hyn ynghyd a bydd gwell cydlynu yn cefnogi hynny. Er y gallai rhai fodloni meini prawf galwadau grant presennol, daw'r cyfle gorau i sicrhau cyllid ODA

trwy gryfhau perthnasoedd rhwng Llywodraeth Cymru a'r FCDO, y DHSC a Swyddfa'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru. Bydd hyn yn gwella'r cyfle y ceir ceisiadau llwyddiannus i ddarparu contractau ac yn agor y posibilrwydd o gyfrannu at raglenni ODA adrannol, er enghraifft, gyda'r DHSC. Bydd unrhyw gais llwyddiannus am gyllid ODA yn datblygu hygyrdd ar gyfer un arall, gan greu "cylch rhinweddol" arall. Fodd bynnag, o ystyried graddfa'r toriadau i ODA, byddai'n ddoeth i gyrff ystyried ffynonellau amrywiol, gan gynnwys rhaglenni grantiau gwledydd eraill.

---

#### 6.4 MAE ANGEN I'R GIG FUDDSODDI ER MWYN ELWA O WAITH IECHYD RHYNGWLADOL.

Mae gan Gymru system iechyd a gofal integredig iawn, sy'n seiliedig ar gynllunio yn hytrach na chystadleuaeth. Mae'n cynnwys nifer o gyrff sy'n darparu cefnogaeth neu wasanaethau ledled y wlad gyfan. Ynghyd â'r ymrwymiad y mae wedi'i ddatgan i waith iechyd rhyngwladol, dylai hyn ei gosod mewn sefyllfa ddelfrydol i gefnogi partneriaethau iechyd rhyngwladol a threfniadau cydweithredol ehangach. Mae hyn yn cael ei lesteirio mewn llawer o gyrff gan ddiffyg strwythur a blaenoriaethu, ynghyd â'r pwysau sydd yno ers tro ac sydd wedi ffrwydro yn ystod y pandemig. Bydd pethau'n parhau fel hynny hyd nes y caiff gwaith iechyd rhyngwladol ei wneud yn flaenoriaeth strategol i'r GIG. Mae'r corff cynyddol o dystiolaeth o'r budd i sefydliadau'r GIG o ran recriwtio staff, eu cadw a'u llesiant, yn ogystal â'u sgiliau craidd, yn cyflwyno dadl gref dros hynny. Mae'r astudiaethau y cyfeiriwyd atynt uchod yn awgrymu y bydd buddsoddi ychydig o amser staff neilltuedig yn y gwaith hwn yn ffordd gost-effeithiol o sicrhau'r manteision hyn. Gallai rhywfaint o'r amser hwn gael ei neilltuo ar gyfer darparu cymorth ymarferol, megis ar gyfer rheoli prosiectau, i bartneriaethau sy'n bodoli, gan eu galluogi i dyfu ac i gynnwys pobl eraill wrth iddynt gynyddu graddfa eu gwaith. Mae gwaith penodol i'w wneud o safbwynt y berthynas rhwng gweithgaredd iechyd rhyngwladol a chynllunio'r gweithlu, gan gynnwys defnyddio hyn i gefnogi recriwtio moesegol o dramor ac i greu cyfleoedd hyfforddi.

---

#### 6.5 MAE ANGEN MYND ATI'N RHAGWEITHIOL I DDENU GRWPIAU DIASPORA I MEWN I WAITH IECHYD RHYNGWLADOL.

Mae gan Gymru grwpiau diaspora mawr a chryf yn ei chymunedau ac yn y GIG, a gall eu profiad ddod â manteision enfawr i'r gwaith hwn. Er mwyn ymgysylltu â'r grwpiau hyn, bydd angen gwell cyfathrebu, o fewn y GIG ac oddi allan, gan gynnwys gwrando a gweithredu ar bryderon y grwpiau hyn. Gall hyn fod yn ganolbwynt wrth ddatblygu gwell cydlynu ar y gwaith yn gyffredinol, a chefnogaeth gryfach o fewn y GIG. Bydd datblygiadau mewn perthynas â staff DALIE yn ystod y pandemig a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil newydd Cymru yn helpu gyda hyn. Yn ogystal â gwella gwaith iechyd rhyngwladol Cymru, bydd gwrando ar y diaspora a'u cynnwys yn rhagweithiol yn cyfrannu at ddatblygu sefydliadau a chymdeithas gwrth-hiliol.

---

#### 6.6 BYDDAI CYMRU'N ELWA O STRATEGAETH SY'N YN YMWNEUD YN BENODOL AG IECHYD RHYNGWLADOL.

Byddai hyn yn datblygu ar hanes llwyddiannus Cymru o weithio ar draws ffiniau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac o gynyddu cyd-gynhyrchu. Byddai dwyn chwaraewyr allweddol ynghyd i ddatblygu hyn yn cefnogi gweithredu ar y casgliadau blaenorol i gyd. Gallai strategaeth newydd dynnu'n uniongyrchol ar brofiadau'r pandemig, ac elwa o'r newid mewn canfyddiadau a'r ffordd fwy cydweithredol o weithio sydd wedi datblygu o hyn. Mae ymwybyddiaeth gynyddol bod iechyd yn fyd-eang, ac nad oes yr un ohonom yn ddiogel nes y bydd pob un ohonom yn ddiogel.

## 7. ARGYMHELLION

Mae gwaelodlin gref y gellir datblygu arni i symud gwaith iechyd rhyngwladol Cymru yn ei flaen, gan gynnwys lefelau rhagorol o frwdfrydedd o fewn cyrff allweddol. Bydd buddsoddiadau bach ar ddatblygu strategaeth sy'n ymwneud yn benodol ag iechyd ac ar gydlynu yn cau'r bwlch rhwng bwriadau a deilliannau, y rhoddwyd sylw iddo yng nghasgliadau'r adroddiad hwn. Bydd hyn yn caniatáu i Gymru a'i gwledydd partner weld mwy o effaith ar sail eu hymdrechion ac i fwynhau manteision sy'n wirioneddol ddwyochrog, gan gynnwys manteision yn y gwasanaethau iechyd ar y ddwy ochr. Yn y Deyrnas Unedig, bydd sicrhau bod staff y GIG yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi, ac yn cael cyfleoedd sy'n cyfoethogi eu bywydau, yn cynorthwyo'r adferiad o bwysau'r pandemig. Rhaid sicrhau mai'r nod cyffredinol yw creu amgylchedd alluogol sy'n annog cyfranogiad ac arloesedd, tra'n llywio gweithgaredd tuag at gyflawni nodau a gytunwyd.

### 7.1 ARGYMHELLION I LYWODRAETH CYMRU

#### 1. Ymrwymo i gynnal cyllid a chefnogaeth i waith rhyngwladol.

Mae'n amlwg bod cefnogaeth gref i raglen Cymru ac Affrica yn Llywodraeth Cymru, yng nghymunedau ein cenedl ac, o safbwynt iechyd, yn y GIG. Yn arolwg IPSOS THET o weithwyr iechyd, roedd 94% o'r cyfanswm a 100% yng Nghymru yn credu bod cymorth i GIC yn weddol bwysig o leiaf. Mae cyllideb cymorth y Deyrnas Unedig a'i strwythurau llywodraethu yn cael eu torri, ac mae gan Gymru gyfle i ddangos agwedd wahanol yn eglur. Byddai hynny'n gydnaws â'i Strategaeth Ryngwladol sy'n edrych tuag allan, yn ogystal â hanes hir Cymru o ymgysylltu yn y maes hwn. Byddai'n anfon neges gref i bobl Cymru bod Llywodraeth Cymru, wrth i ni ailadeiladu wedi pandemig y coronafeirws, yn adnewyddu ei ymrwymiad i'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r egwyddor o ddinasyddiaeth fyd-eang.

#### 2. Cynnull Grŵp Strategaeth Iechyd Rhyngwladol (GSIRh) trawslywodraethol.

Cafodd grŵp o'r fath ei sefydlu yn dilyn argymhellion "Iechyd yng Nghymru a Thu Hwnt i'w Ffiniau" ond mae wedi cloffi ers hynny. Bydd cynrychiolaeth trawslywodraethol yn allweddol er mwyn ystyried iechyd fel cyfanwaith eang, ac elwa o gael yr holl sectorau perthnasol yn cymryd rhan. Bydd y grŵp yn awyddus i dderbyn cyngor gan randdeiliaid perthnasol o'r tu allan i'r llywodraeth a gellid gwneud hyn trwy sefydlu Bwrdd Partneriaeth.

Gellid seilio cylch gorchwyl ac aelodaeth y GSIRh ar rai'r grŵp blaenorol, ond bydd angen adolygiad trylwyr: mewn naw mlynedd, mae'r amgylchedd iechyd wedi newid o fewn a thu hwnt i ffiniau, a rhaid i'r grŵp fod yn addas ar gyfer gwasanaeth iechyd a blaenoriaethau byd-eang 2021 a thu hwnt. Byddai'r GSIRh yn cael ei arwain gan uwch aelod o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a byddai'n adolygu ac yn gosod y cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer gweithredu Cymru ym maes iechyd rhyngwladol.

Gallai'r grŵp ystyried y meysydd penodol canlynol:

- Amcanion ar gyfer ymwneud Cymru ag iechyd rhyngwladol, yn seiliedig ar y Nodau Datblygu Cynaliadwy, cyd-gynhyrchu a manteision i'r ddwy ochr. Gallai hynny gynnwys pwyso a mesur manteision canolbwyntio adnoddau ar wledydd neu ar themâu iechyd penodol.
- Cysylltiad amlwg â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, dinasyddiaeth fyd-eang a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil newydd. Mewn perthynas â'r olaf o'r rhain, gallai gweithredu penodol ar ymgysylltu â diaspora yn y gwaith hwn fod yn fuddiol.
- Amrywiaeth y gweithgareddau, o ran math a maint y cyrff sy'n cymryd rhan. Gallai hyn gynnwys cymorth penodol i grwpiau bach, ar yr amod eu bod yn dilyn egwyddorion arfer da; hyrwyddo cyrff penodol sydd eisiau tyfu ac sydd mewn sefyllfa dda i wneud hynny; a gosod grwpiau mwy mewn sefyllfa ble gallant gael gafael ar ffrydiau incwm mwy.

- Gwaith cyswllt gyda chyrrff Cymreig allweddol a Lywodraeth y DU (gweler isod) i ddatblygu cynigion llwyddiannus ar gyfer prosiectau mawr. Gallai hyn fod wedi'i ganoli ar feysydd a nodwyd yn yr adroddiad hwn fel cryfderau allweddol yng Nghymru: diogelu iechyd ac ymchwil iechyd y cyhoedd, gofal iechyd ar sail gwerthoedd, arloesi digidol, genomeg (yn arbennig mewn perthynas â brigiadau afiechydon ac ymwrthedd gwrthficrobaidd), a chysylltiadau cryfion sy'n bodoli eisoes gyda gwledydd.
- Cryfhau cyfraniad GIG Cymru a'r manteision iddo. Bydd angen arweinyddiaeth eglur yn y GIG ar gyfer hyn a diweddariad o Gylchlythyr Iechyd Cymru 2006. Gallai olygu creu cyfleoedd newydd i'r gweithlu, gan gynnwys staff diaspora, er mwyn gwella recriwtio a chadw staff.
- Yr adnoddau a'r arweinyddiaeth sydd eu hangen i drosi strategaeth yn weithredoedd a deilliannau ymarferol. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth benodol i arweinyddiaeth a chefnogaeth yn y GIG ac adnoddau ar gyfer cydlynu'r gwaith, gan gynnwys mynediad at gyllid.

### 3. Cryfhau'r berthynas strategol gydag adrannau Llywodraeth y DU a rhwydweithiau, gan gynnwys yr FCDO.

Byddai'r grŵp uchod yn arwain ar ddatblygu perthnasoedd gyda Llywodraeth y DU, llywodraethau eraill a chyrrff rhyngwladol. Gallai sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli, gyda llais unedig, wrth y byrddau ble caiff penderfyniadau allweddol eu gwneud. Mae datblygu perthynas strategol gyda'r FCDO yn un o nodau'r Strategaeth Ryngwladol a gellid hwyluso hynny trwy ffocws ar iechyd, sy'n faes y mae disgwyl iddo barhau'n flaenoriaeth ar gyfer gwariant ODA y DU. Ymhlith adrannau a grwpiau allweddol eraill yn y Deyrnas Unedig, mae:

- Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru, y bydd ei gefnogaeth yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu a chynnig prosiectau ar gyfer cyllid ODA.
- Y Prif Swyddogion Meddygol, sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac sydd mewn sefyllfa dda i ystyried sut mae blaenoriaethau'r cenhedloedd yn cydweddu. Mae gan Brif Swyddog Meddygol Lloegr drosolwg dros gyllideb ODA y DHSC, sy'n cefnogi llawer o brosiectau rhyngwladol sy'n gysylltiedig ag iechyd.
- Pwyllgor Iechyd Byd-eang Public Health England, neu'r hyn sy'n cyfateb iddo yn dilyn ailstrwythuro gwasanaethau iechyd y cyhoedd yn Lloegr. Mae PHE wedi cael cryn lwyddiant yn datblygu prosiectau sydd wedi'u hariannu gan ODA a gall fod cyfleoedd ar gyfer cydweithredu a chyd-ddarparu.
- Bwrdd Whitehall Gyfan ar gyfer Recriwtio Rhyngwladol, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Gymru ar hyn o bryd trwy swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol.
- Rhwydwaith Unedau Cydlynu Iechyd Byd-eang y DU ac Iwerddon. Mae'r grŵp rhynglywodraethol hwn yn fforwm anffurfiol ar gyfer rhannu profiadau, a bydd yn galluogi Cymru i ddatblygu ar sail gwybodaeth o wledydd eraill, yn ogystal ag i dynnu sylw at ei datblygiadau newydd.
- Rhwydweithiau trawsbleidiol ac anffurfiol. Bydd ymgysylltu â'r rhain yn helpu i ddatblygu perthnasoedd mwy ffurfiol neu strategol. Ymhlith yr enghreifftiau, mae Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, Cynulliad Seneddol Prydain-Iwerddon, sefydliadau tramor y pleidiau gwleidyddol a digwyddiadau rhwydweithio sy'n gysylltiedig â grwpiau seneddol allweddol megis Grŵp yr Holl Bleidiau ar Iechyd Byd-eang.

Mae angen i gynrychiolwyr Cymru fod yn eglur ac yn hyderus ynglŷn â'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig, a bydd hyn yn deillio o waith y Grŵp Strategaeth Iechyd Rhyngwladol newydd.

### 4. Adolygu ac ail-fuddsoddi mewn cydlynu ar gyfer Gwaith Iechyd Rhyngwladol.

Cydnabuwyd yr angen am waith cydlynu yn "Iechyd yng Nghymru a Thu Hwnt i'w Ffiniau", ond nid yw'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd a sefydlwyd o ganlyniad yn gweithredu'n llawn mwyach. Bydd gwell cydlynu yn hwyluso'r cysylltiadau sy'n meithrin cydweithredu, gan arwain at syniadau newydd a phrosiectau cryfach. Dylai'r Grŵp Strategaeth Iechyd Rhyngwladol ystyried beth ddylai Canolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd wedi'i hadnewyddu ei ddarparu a ble dylid ei chartrefu.

Gallai swyddogaethau canolfan gydlynu wedi'i hadnewyddu gynnwys:

Gwneud y gorau o botensial Partneriaethau Iechyd Cymru

- Cynorthwyo sefydliadau'r GIG i weithredu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yn llawn.
- Coladu adborth gan wirfoddolwyr yn y GIG, gan ddangos tystiolaeth o'r ffyrdd y mae eu profiadau yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol a sefydliadol.
- Creu fforwm ble gall yr holl gyrff sydd â diddordeb, gan gynnwys cyrff y GIG, rhai academiaidd a rhai cymunedol, gyfathrebu a chydweithio.
- Casglu a chylchredeg gwybodaeth am gyfleoedd cyllido cyfredol sy'n gysylltiedig ag iechyd, gan gynnwys ODA y DU.
- Hwyluso rhwydweithio rhwng unigolion a grwpiau.

Gallai unrhyw gorff GIG sydd â'r capasiti a'r parodrwydd i yrru'r agenda hon fod yn 'gartref' i'r Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd, ond mae'r canlynol yn opsiynau amlwg:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru. Y cartref presennol ac yn gorff sy'n ymgymryd â gwaith ymgysylltu rhyngwladol arwyddocaol, er bod ffocws cryf ar Ewrop ar hyn o bryd trwy Ganolfan Gydweithredu'r WHO.
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Byddai'r cyfrifoldeb dros weithlu GIG Cymru yn cydweddu'n dda â llawer o'r swyddogaethau uchod a chyda darparu cyfleoedd tramor newydd ar gyfer staff y GIG.

Byddai angen ychwanegu adnoddau digonol er mwyn cefnogi swyddogaethau'r IHCC, fel y cydnabuwyd pan gafodd ei sefydlu.

Dylid cydnabod a chefnogi sefyllfa unigryw RhCICA, yn pontio rhwng y GIG a MCSau, fel rhan o'r broses hon. Gellid darparu cefnogaeth trwy HCA gan ddefnyddio model sy'n cyfateb i'r hyn a geir gyda'i bartneriaid eraill, trwy IHCC wedi'i hadnewyddu, neu'n annibynnol.

### **5. Cysoni'r defnydd o gyrff elusennol y GIG ar gyfer cadw cronfeydd Partneriaethau Iechyd.**

Mae manteision gwaith iechyd rhyngwladol i'r GIG – ar lefel unigolion a sefydliadau – yn cael eu cydnabod yn amlwg yng Nghymru, trwy Gylchlythyr Iechyd Cymru 2006, Fframwaith 2012 a rhaglen Cymru ac Affrica. Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at dystiolaeth bellach o'r manteision a bydd gweithredu ar ei argymhellion yn dangos eu bod yn parhau i gael eu cydnabod ar lefel uchel. Yn wyneb hyn, dylai cadw cronfeydd ar gyfer Partneriaethau Iechyd gael ei gynnwys yn amlwg o fewn nodau cyrff elusennol y GIG, ble mai'r nodau hyn yw "darparu buddion i boblogaeth ardal y Bwrdd Iechyd" (neu Gymru gyfan, yn achos yr Ymddiriedolaethau). Byddai gwneud hynny yn lleihau beichiau gweinyddol ac yn hwyluso mynediad at gyllid i Bartneriaethau Iechyd, gan ryddhau amser ac egni i gynllunio a chyflawni prosiectau sy'n cael effaith. Ar yr un pryd, gan mai cyfran fechan iawn o'r holl gronfeydd sydd dan sylw, mae'n annhebygol y bydd hyn yn peri cynnydd arwyddocaol yn y baich sydd ar y sefydliadau elusennol, a fydd yn cyfrif am eu costau gweinyddol trwy ddefnyddio'u model arferol.

Mae pob Bwrdd/Ymddiriedolaeth Iechyd yn Ymddiriedolwr Corfforaethol ar ei Elusen GIG, ac maent oll yn dilyn canllawiau'r Comisiwn Elusennau. Mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa, felly, i ddylanwadu er mwyn cysoni'r dehongliad o amcanion yr elusennau, trwy ei chyfrifoldeb dros y GIG. Byddai cyhoeddi papur cynghori ar y mater hwn, wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn Elusennau, i Fyrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd, yn ddull effeithiol o gyflawni hyn.

### **6. Datblygu capasiti a chynaliadwyedd cyrff sy'n bodoli.**

Bydd hyn, i ryw raddau, yn dilyn yn naturiol os caiff argymhellion eraill eu gweithredu. Bydd partneriaethau sy'n seiliedig ar y GIG yn elwa o well ymrwymiad a chefnogaeth sefydliadol, a bydd cydlynu yn hwyluso cydweithio. Ond bydd camau eraill yn help i dorri'r cylch dieflig lle mae diffyg cyllid yn arwain at ddiffyg capasiti, a hynny wedyn at anhawster o ran ymgeisio am gyllid.

Un opsiwn cymharol syml ydy dyfarnu rhai grantiau mwy trwy raglen Cymru ac Affrica. Y nod fyddai cefnogi prosiectau sy'n cael mwy o effaith ar raddfa fwy neu dros gyfnod hirach. Dylai hyn fod o fudd i'r wlad bartner, tra byddai graddfa'r

monitro y byddai ei angen yn cryfhau llywodraethiant cyrff a'u profiad o reoli cronfeydd mwy. Byddai'r cynnydd mewn hyder, gallu a hygyrdd yn gam tuag at gyfleoedd cyllido pellach.

Bydd parhau'r gefnogaeth i HCA a chryfhau'r gefnogaeth i RhCICA (fel uchod), gyda'r ddau ohonynt yn darparu ystod o gyfleoedd i gael cyngor a hyfforddiant i gyrrff sy'n cymryd rhan, yn allweddol hefyd.

---

## 7.2 ARGYMHELLION I GIG CYMRU

### 1. Gwreiddio gwaith rhyngwladol ym musnes craidd y GIG trwy ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Nododd adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2020 mai'r nod "cyfrifoldeb byd-eang yw'r un sy'n cael ei ddeall leiaf a'i weithredu leiaf o blith saith nod y Ddeddf. Er bod sawl dull o gymhwyso'r nod hwn gartref, nid oes amheuaeth y gallai sefydliadau'r GIG ddangos cyfrifoldeb byd-eang trwy ymwneud â gwaith ieuchyd rhyngwladol yn unol â chanllawiau arfer orau. Yn wir, un o "10 newid syml" y Comisiynydd er mwyn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r nod hwn ydy: "Hyrwyddo cyfleoedd arweinyddiaeth i'ch staff er mwyn deall cyd-destunau byd-eang".

Gan fod y rhan fwyaf o sefydliadau eisoes wedi arwyddo'r Siarter a bod ganddynt staff sy'n weithredol ym maes ieuchyd rhyngwladol, mae'n ymddangos y gallai sefydliadau gynnwys y gwaith hwn yn naturiol wrth ddisgrifio eu cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant. Dylai cynnydd amlwg tuag at y nod hwn ddilyn yn sgil buddsoddiadau bychain yn amser y Weithrediaeth ac amser staff, a dylai'r gwaith gael ei gryfhau trwy ymwneud y GIG â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

### 2. Gweithredu'r Siarter ar gyfer Partneriaethau Iechyd Rhyngwladol yn llawn.

Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant sefydliadau fel uchod, gan gynyddu'r gwerth am arian a geir o fuddsoddiadau i gefnogi'r gwaith hwn. Meysydd allweddol i'w gweithredu ydy:

- Arweinyddiaeth amlwg ym mhob corff GIG. Bydd yr unigolyn mwyaf priodol yn amrywio o un sefydliad i'r llall, ond dylai fod ar lefel uwch, ac ar lefel y Bwrdd yn ddelfrydol. Bydd hyn yn galluogi trosolwg eglur ar draws sefydliadau pob corff ac yn sicrhau bod y Bwrdd yn ymwybodol o'r gwaith.
- Adrodd yn eglur ar allbynnau a deilliannau gwaith rhyngwladol y corff. Dylai'r rhain fod ar gael o gofnodion presennol y Partneriaethau Iechyd, yn enwedig y rhai a gyllidir gan grantiau, a fydd yn golygu bod angen casglu'r data hyn.
- Cipio effeithiau profiadau gwirfoddolwyr ar eu datblygiad proffesiynol. Mae BIPCTM wedi datblygu erfyn i gefnogi hyn, a fydd yn cael ei gynnwys ym Mhecyn Cymorth Gweithredu'r Siarter.
- Cyfathrebu gweithredol gyda staff, gan gynnwys gwneud hynny trwy wefan y sefydliad, i dynnu sylw at gyfleoedd a manteision ymgysylltu. Bydd hyn yn gwella ymwybyddiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth byd-eang, hyd yn oed ymhlith aelodau staff nad ydynt yn ymwneud yn weithredol â'r maes.
- Ymdrechion penodol i gynnwys staff diaspora. Mae'n bosib y bydd mudiadau diaspora oddi allan i'r GIG, neu staff cyrff GIG eraill, yn gallu darparu arbenigedd a gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer prosiectau penodol lle nad yw hyn ar gael yn y sefydliad dan sylw.

Dylai sefydliadau ystyried neilltuo amser penodedig ar gyfer y gwaith hwn i aelodau staff allweddol: er enghraifft, un swyddog o'r weithrediaeth, un gweinyddwr ac un clinigydd. Trwy gefnogi gweithredu effeithiol, gallai hyn fod yn ffordd hynod gost-effeithiol o sicrhau'r manteision mwyaf posib.



### 3. Datblygu gwaith ymgysylltu byd-eang Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Gyda'i gyfrifoldeb dros weithlu amlddisgyblaethol GIG Cymru, mae AaGIC mewn sefyllfa ddelfrydol i allu datblygu strategaethau a fydd yn golygu bod gwaith iechyd rhyngwladol yn cefnogi recriwtio staff, eu cadw a'u llesiant. O gymharu'r gwaith presennol â'r hyn sy'n digwydd yng nghanedloedd eraill y Deyrnas Unedig, gwelir bod bwlch amlwg i'w lenwi yma. Ymhlith y meysydd y dylid eu hystyried, mae:

- Darparu cyfleoedd dysgu tramor er mwyn denu a datblygu staff. Gall fod potensial ar gyfer partneru gyda HEE, gan alluogi Cymru i ddarparu model tebyg o ymgysylltu byd-eang. Neu fel dewis arall, gallai AaGIC ddatblygu rhaglen sy'n gydnaws â blaenoriaethau a nodwyd yng Nghymru a phartneru gyda thrydydd parti (er enghraifft, THET) i ddarparu'r rhaglen honno.
- I ddoctoriaid, ehangu'r ystod o opsiynau o fewn hyfforddiant arbenigol. Mae lleoliadau gwaith byd-eang eisoes ar gael ym maes Meddygon Teulu, ac mae Colegau Brenhinol eraill yn cefnogi rhaglenni tebyg: er enghraifft, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant, a Choleg Brenhinol yr Anesthetyddion.
- Mabwysiadu contractau hyblyg, gydag amser wedi'i nodi ar gyfer ymgymryd â gwaith tramor. Gallai'r rhain ddenu ymgeiswyr i swyddi sy'n anodd eu llenwi neu gefnogi recriwtio moesegol trwy ganiatáu amser i staff diaspora ddychwelyd i wledydd eu treftadaeth, gan gyfrannu sgiliau newydd i'w systemau iechyd. Byddai hynny'n dod â budd i'r ddwy wlad fel ei gilydd.

Bydd angen adnoddau ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn, ond eto byddai'n gost-effeithiol trwy'r manteision i'r gweithlu.

---

### 7.3 ARGYMHELLION I GYRFF ERAILL

#### **RhCICA: cadarnhau ei bwrpas a'i weledigaeth, i greu rhwydwaith cryf.**

Mae Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica yn gorwedd oddi allan i'r GIG ond â chysylltiadau agos, sy'n ei osod mewn sefyllfa gref i allu cysylltu grwpiau gwahanol ac eirioli dros iechyd rhyngwladol. Mae ei aelodau yn wirfoddolwyr profiadol a brwdfrydig, llawer ohonynt yn weithwyr gofal iechyd proffesiynol, sydd â llawer i'w gyfrannu i'r sector. Dylai ystyried datblygu ei weledigaeth ar gyfer gwaith iechyd rhyngwladol yng Nghymru, a'i bwrpas penodol o fewn y gwaith, a chyflwyno hynny'n fwy amlwg. Bydd hyn yn cefnogi:

- Mewnbwn arbenigol i ddatblygu strategaeth trwy Grŵp Strategaeth Iechyd Rhyngwladol newydd. Mae RhCICA mewn sefyllfa dda i allu cynnig safbwynt cytbwys fel rhan o'r grŵp hwn.
- Ehangu a chryfhau'r rhwydwaith o grwpiau ac unigolion sy'n gysylltiedig. Roedd yr awydd i rwydweithio trwy RhCICA yn ganfyddiad allweddol o'r gwaith o gyfnewid â rhanddeiliaid ar gyfer yr adroddiad hwn. Gellir hwyluso hynny trwy gael "cynnig" eglur i gyrff sydd â diddordeb a bydd angen datblygu'r wefan a dulliau cyfathrebu.

Fel corff allweddol ac yn unol â'r hyn a argymhellwyd uchod, dylai RhCICA ddisgwyl derbyn adnoddau priodol ar gyfer y gweithgaredd hwn. Yn gyfnewid, bydd gwaith rhyngwladol Cymru yn elwa o gael llais cryf ac annibynnol sydd â chysylltiadau helaeth yn y sector.

## 8. SYLWADAU CLOI

Mae'r adroddiad hwn yn bwrw golwg dros waith iechyd rhyngwladol Cymru ar adeg gythryblus iawn yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Mae ei gynnwys a'i gasgliadau wedi'u dylanwadu gan yr elfennau o ansicrwydd sydd ynghlwm â hynny, ond ar yr un pryd, maent wedi eu cryfhau gan y gwirionedd sylfaenol a ddaeth mor amlwg i ni dros flwyddyn ddiwethaf: bod iechyd yn fyd-eang. Nid a ddylem ni ymgysylltu'n rhyngwladol yw'r cwestiwn, ond sut dylem ni wneud hynny, a pha rai o fanteision yr ymgysylltu hwn y dewiswn eu blaenoriaethu. Mae gan Gymru gryfderau arwyddocaol a all, o roi sylw iddynt, gyfrannu tuag at ymdrechion ehangach y Deyrnas Unedig a denu cyllid a fydd yn galluogi twf pellach. Ar yr un pryd, mae angen cyfleoedd ar weithlu ein GIG i gyfoethogi eu bywydau yn y gwaith ac i hyrwyddo llesiant wrth iddynt ddod dros y straen digynsail diweddar. Wrth i ni ddod allan o'r pandemig ac ystyried blaenoriaethau ein cenedl, ein gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i osod ei chyfeiriad o ran ymgysylltu rhyngwladol ym maes iechyd.

ATODIAD 1: AELODAU'R GRŴP LLYWIO A RHANDEILIAID

Aelodau'r grŵp llywio	
Corff	Cynrychiolydd(-wyr)
THET	Ben Simms (Prif Swyddog Gweithredol) Raquel Perez (Swyddog Ymgysylltu Allanol)
RhCICA	Kathrin Thomas (Cadeirydd) Bernadette Fuge (Ymddiriedolwr)
Hub Cymru Africa	Claire O'Shea
Annibynnol	Gillian Richardson

Rhanddeiliaid ar gyfer cyfweiliadau lled-strwythuredig	
Grŵp	Corff
Llywodraeth	Senedd
	Senedd y Deyrnas Unedig
	Llywodraeth Cymru x4
Cyrrff Hyd Braich, gan gynnwys y GIG	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf x2
	Addysg a Gwella Iechyd Cymru
	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
	Iechyd Cyhoeddus Cymru
	Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
	Prifysgol Bangor
	Prifysgol Caerdydd (Prosiect Phoenix)
	Comisiwn Bevan
	Y Ganolfan Ryngwladol Cydlynu Iechyd x2
	Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil Iechyd a Llesiant y Boblogaeth
Mudiadau Cymdeithas Sifil	Anabledd Cymru ac Affrica
	Dolen Cymru
	Hub Cymru Africa
	Interburns
	Life for African Mothers
	PONT
	Sef Cymru
	Panel Affrica Is-Sahara
	Teams4U
	Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica x2
	Dolen Zimbabwe-Caerdydd (unigolyn)

ATODIAD 2: CYRFF IECHYD RHYNGWLADOL GWEITHREDOL SYDD Â'U PENCADLYS YNG NGHYMRU

	Corff	Yn Weithredol yn
<b>Cysylltiedig â'r GIG</b>		
BIPAB	Midwives@Ethiopia	Ethiopia
BIPBC	Dolen Betsi-Kenya	Kenya
	Dolen Betsi-Quthing	Lesotho
	Dolen Glan Clwyd-Ethiopia	Ethiopia
BIPCAF	Dolen Prifysgol Zimbabwe (unigolyn)	Zimbabwe
AaGIC	Cymrodoriaethau Byd-eang (hyfforddiant meddygon teulu)	De Affrica
GGGC	GGGC yn Affrica	Lesotho
BIPBA	Gweledigaeth 2020 Gambia-Abertawe	Gambia
	Gofal Mamolaeth Parchus	Zimbabwe
Felindre	Dolen Cancr Sierra Leone-De Cymru	Sierra Leone
<b>Cysylltiedig â Phrifysgol</b>		
Caerdydd	Prosiect Phoenix	Zambia, Namibia
Abertawe	Dolen Abertawe-Gambia	Gambia
<b>Cymunedol</b>		
	Dolen Aberhonddu-Molo	Kenya
	Gofal i Uganda/FLOW	Uganda
	Cwlwm Monduli	Tanzania
	Dolen Cymru	Lesotho
	Cyfeillion Monze	Zambia
	Give me hope Africa Wales	Uganda
	Gulu Mission Initiative	Uganda
	Ymddiriedolaeth Menywod Hayaat	Somaliland
	Hazina	Tanzania
	Health Help International	Zambia, India
	Cronfa Jamie	Uganda
	Interburns [hefyd yn MCS]	Nifer
	Life for African Mothers	Sierra Leone, Liberia, GDdC
	LIFE International	Djibouti, Somaliland, Kenya
	Love Zimbabwe	Zimbabwe
	Medics4Timbuktu	Mali
	Mothers of Africa	Zambia ac eraill
	PONT	Uganda
	Saddle Aid	Ethiopia ac eraill
	Ymddiriedolaeth Salt Peter	Uganda

	<b>Corff</b>	<b>Yn Weithredol yn</b>
	Sight 2020 Direct	Malawi
	Mudiad Iechyd Meddwl Somaliland	Somaliland
	Teams4U	Uganda, Sierra Leone
	United purpose	Nifer
	Vale for Africa	Uganda
	Zanzibar Mental Health Shamba	Zanzibar

### Gwybodaeth am RhCICA

Sefydlwyd Rhwydwaith Cysylltiadau Iechyd Cymru ac Affrica (RhCICA) yn 2006 fel grŵp anffurfiol i gefnogi ac eirioli dros bartneriaethau iechyd yng Nghymru a chafodd ei ffurfioli yn 2013 fel elusen. Mae RhCICA yn bartner ac yn aelod o Fwrdd Hub Cymru Africa, sy'n cefnogi'r sector datblygu rhyngwladol yng Nghymru.

### Gwybodaeth am THET

Mae THET yn gweithio i greu byd lle mae gan bawb, ym mhobman fynediad at ofal iechyd o ansawdd. Rydym yn cyflawni hyn trwy hyfforddi ac addysgu gweithwyr iechyd mewn gwledydd incwm isel a chanolig, mewn partneriaeth â gwirfoddolwyr o bob rhan o gymuned iechyd y Deyrnas Unedig. Wedi'n sefydlu ym 1988 gan Yr Athro Syr Eldryd Parry, ni yw'r unig elusen yn y DU sy'n canolbwyntio ar hyn.

### Cydweithio Rhyngom

Mae THET a RhCICA wedi cydweithio'n anffurfiol ers dros ddegawd ar ystod o weithgareddau i gefnogi iechyd byd-eang a phartneriaethau iechyd, gan gynnwys gweithdai hyfforddiant a chynadleddau. Rydym yn gweithio ar hyn o bryd dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n ein hymrwymo i rannu gwybodaeth ac i gydweithio ar bartneriaethau iechyd yn Affrica is-Sahara.

